Y GRONFA GWADDOL IEUENCTID



# Cyfarwyddyd cais

Oedolyn dibynadwy

MEDI 2022

# Am Y Gronfa Gwaddol Ieuenctid

Mae'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid (YEF) yn elusen â gorchwyl sydd o bwys. Rydym yn bodoli i atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais. Rydym yn gwneud hyn trwy ganfod beth sy'n digwydd ac adeiladu mudiad i roi'r wybodaeth hon ar waith.

Mae plant a phobl ifanc mewn perygl o gymryd rhan mewn trais yn haeddu gwasanaethau sy'n rhoi'r cyfle gorau iddynt o ddyfodol cadarnhaol. I sicrhau bod hynny'n digwydd, byddwn yn cyllido prosiectau addawol ac wedyn yn defnyddio'r arfarnu gorau oll i ganfod beth sy'n gweithio. Yn union fel rydym yn elwa ar dreialon cadarn mewn meddygaeth, mae plant a phobl ifanc yn haeddu cymorth wedi'i seilio yn y dystiolaeth. Trwy ein cylchoedd grant, byddwn yn adeiladu'r wybodaeth honno. A'r un mor bwysig yw deall bywydau plant a phobl ifanc. Trwy ein Bwrdd Cynghori Ieuenctid a rhwydwaith cenedlaethol o ymchwilwyr cymheiriaid byddwn yn sicrhau eu bod yn dylanwadu ar ein gwaith, ac rydym yn deall ac yn mynd i'r afael â'u hanghenion.

Ond ni fydd dim o hyn yn gwneud gwahaniaeth os mai'r cwbl rydym yn ei wneud yw cynhyrchu adroddiadau sy'n aros ar silff. Gyda'n gilydd mae angen i ni edrych ar y dystiolaeth a chytuno ar beth sy'n gweithio, wedyn adeiladu mudiad i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth gorau un posibl.

Mae'n strategaeth yn amlinellu sut y byddwn yn ei wneud.





## Ein themâu – cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel

Rydym yma i wella bywydau plant a phobl ifanc. Rydym yn adeiladu'n holl waith o gwmpas set o themâu – yr amodau rydym yn meddwl sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc yn eu bywydau i'w cadw yn ddiogel rhag cymryd rhan mewn trais. Mae'r set hon o themâu yn darparu ffocws ar gyfer yr wybodaeth rydym am adeiladu ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio.

Mae'r cylch grant hwn, *Oedolyn dibynadwy*, wedi'i ganolbwyntio ar adeiladu perthnasoedd ymddiriedol i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod neu sydd mewn perygl uchel o gael eu heffeithio gan drais, troseddu a/neu gamfanteisio.

# Mae angen…

## Oedolyn dibynadwy ar bobl ifanc

Gallai fod yn athro, gweithiwr ieuenctid, hyfforddwr chwaraeon, mentor neu rywun arall y tu allan i'w hamgylchedd teuluol. Mae angen oedolion maen nhw'n gallu ymddiried ynddynt i siarad trwy eu problemau a chael cymorth pan fydd ei angen arnynt ar blant.

## Cartref cefnogol

Naill ai trwy therapi teulu neu ddosbarthiadau rhianta, rydym yn gwybod bod helpu rhieni a gofalwyr yn gallu gwneud gwahaniaeth i blant mewn perygl o gymryd rhan mewn trais. Mae hyn yn cynnwys cymorth penodol i blant mewn gofal.

## Ie diogel, cadarnhaol i ddysgu

Mae cadw plant wedi'u hymgysylltu â'u haddysg yn helpu i'w cadw'n ddiogel rhag cymryd rhan mewn trais. Byddwn yn edrych ar sicrhau bod gan ysgolion, colegau, Unedau Atgyfeirio Disgyblion a ffurfiau eraill o addysgu raglenni ar waith i sicrhau eu bod yn lleoedd diogel, cadarnhaol i ddysgu.

## Cymdogaeth ddiogel

Mae cael rhwydwaith cyfeillgarwch cryf a mannau diogel i fynd iddynt yn eu cymdogaeth yn golygu bod plant a phobl ifanc yn gallu cadw'n ddiogel. Gallai hynny gynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn tîm chwaraeon neu'r cyfle i wneud celf neu gerddoriaeth. Ac mae'n cynnwys plismona bod hynny'n effeithiol, teg a dibynadwy.

## Sgiliau cymdeithasol ac iechyd meddwl da

Mae angen i blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Os ydynt yn gallu adnabod a rheoli eu teimladau, maen nhw'n gallu adeiladu perthnasoedd cryf â phobl eraill a goresgyn y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu. Mae angen y cymorth gorau posibl arnynt hefyd, i wella'u hiechyd meddwl a hunan-barch.

## Cyfleoedd

Mae angen cyfleoedd ar bobl ifanc – boed yn gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg. Mae dyfodol disglair, â'r cyfle i adeiladu eu cryfderau a thalentau, yn gallu diogelu pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais.

## Cyfle arall

Weithiau mae pethau'n mynd o'u lle. Os yw unigolyn ifanc yn mynd i darfferth, yn cael ei arestio neu'n cael ei euogfarnu o drosedd, mae angen llwybr arnynt i gymryd llwybr amgen ac osgoi cylch o aildroseddu.

## Cymdeithas deg

I sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd, mae angen i ni weithio i wneud cymdeithas yn decach. Mae hynny'n golygu mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu a thlodi.

## Oedolyn dibynadwy

Pan fydd plentyn neu unigolyn ifanc yn agored i niwed ac angen cymorth arno/arni, mae cael oedolyn yn ei fywyd/bywyd mae'n gallu troi ato/ati am gymorth, cyfarwyddyd a sicrwydd yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr. I rai, gallai hyn fod yn aelod o'r teulu. Ond gall eraill deimlo'n fwy cyfforddus yn ceisio cymorth gan rywun y tu allan i'w deulu neu ffrindiau - er enghraifft gweithiwr ieuenctid, hyfforddwr chwaraeon neu weithiwr allweddol neu achos.

Er mwyn i blentyn neu unigolyn ifanc rannu gwybodaeth ag oedolyn y tu allan i'w deulu, mae angen iddo deimlo'n ddiogel a chyfforddus. Mae'r perthnasoedd hyn yn gallu cymryd amser i'w meithrin. Ond wedi'u sefydlu, mae'r oedolyn dibynadwy yn gallu darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i'w arwain tuag at ddewisiadau cadarnhaol.

Yn ein cylch grant *Oedolyn dibynadwy* , rydym yn bwriadu cyllido ac arfarnu prosiectau lle mae perthnasoedd oedolion dibynadwy - **y tu allan i'r amgylchedd teulu** - yn nodwedd ddiffiniol neu graidd o'u gwaith i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod neu **sydd mewn risg uchel o gael eu heffeithio gan drais, troseddu a/neu gamfanteisio**.

## Beth yw 'oedolyn dibynadwy'?

**Pan rydym yn dweud 'oedolyn dibynadwy' rydym yn golygu…**

…oedolyn nad yw'n aelod o'r teulu nac yn ffrind, ond mae'n rhywun â'r wybodaeth, sgiliau a galluoedd i adeiladu perthnasoedd ymddiriedol a darparu ymagweddau penodol sy'n cynorthwyo canlyniadau cadarnhaol i blentyn neu unigolyn ifanc. Mae rolau, cyfrifoldebau a ffiniau clir yn cael eu sefydlu rhwng oedolyn dibynadwy a phlentyn ac unigolyn ifanc.

**At ddibenion y grant hwn mae oedolyn dibynadwy yn gallu cael ei dalu neu ymarferydd ieuenctid gwirfoddol sydd naill ai'n:**

- Fentor
- Gweithiwr allweddol
- Gweithiwr achos

**Mae nodweddion perthnasoedd oedolyn dibynadwy - unigolyn ifanc o ansawdd uchel yn cynnwys:**

- Mae gan blant a phobl ifanc rywfaint o alluedd mewn llunio sut maen nhw'n gweithio â'u hoedolyn dibynadwy.
- Mae amser digonol yn cael ei ddarparu i adeiladu perthynas sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ddod i adnabod a theimlo'n gyfforddus yn rhannu gwybodaeth â'u hoedolyn dibynadwy.
- Darparu gofod diogel ac anfeirniadol lle mae oedolyn dibynadwy yn gallu gwrando, bod yn empathetig a chefnogol.

- Gosod a chynnal ffiniau clir. Mae hyn yn cynnwys yr oedolyn dibynadwy yn bod yn onest, cyson a dibynadwy. Dylent hefyd allu helpu pobl ifanc i gyrchu cymorth ymarferol a pherthnasol priodol lle bo angen.
- Deall cyd-destun y plentyn neu unigolyn ifanc, gan gynnwys ei ddiwylliant neu unrhyw brofiad o ymyleiddio.
- Sicrhau bod gan yr oedolyn dibynadwy sgiliau perthnasoedd cryf ochr yn ochr â'i gymhwysterau proffesiynol.

## Pam ydym ni'n buddsoddi mewn perthnasoedd oedolion dibynadwy?

Rydym yn gwybod bod perthnasoedd oedolion dibynadwy yn bwysig yn natblygiad plant a phobl ifanc Ond yr hyn nad ydym yn ei wybod mewn gwirionedd - oherwydd diffyg ymchwil o ansawdd uchel ac arfarniadau effaith - yw effaith y perthnasoedd hyn ar leihau troseddu a thrais ieuenctid.

**Trwy'r cylch grant hwn ar thema, mae eisiau ateb y cwestiwn ymchwil canlynol arnom:**

A yw ymagweddau sy'n canolbwyntio ar adeiladu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedol ag oedolyn y tu allan i amgylchedd y teulu yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc (10-18 oed yn bennaf) â'r anghenion mwyaf heb eu hateb sy'n eu rhoi mewn perygl uchel o gael eu heffeithio gan drais, troseddu a / neu gamfanteisio?

# Beth y byddwn yn buddsoddi ynddo

Yn ein cylch grant *Oedolyn dibynadwy* , byddwn yn anelu at adnabod tua 6 i 10 prosiect i'w cyllido a'u harfarnu. Rydym yn cynllunio gwario rhwng £8 miliwn a £12.5 miliwn yn dibynnu ar ba mor dda mae ceisiadau'n ateb ein meini prawf.

Mae'n rhaid i brosiectau gael eu darparu yn naill ai **Lloegr a/neu Gymru**. Nid yw ceisiadau gan brosiectau y tu allan i'r gwledydd hyn yn gymwys ar gyfer ein cyllid.

## Pwy rydym yn bwriadau eu cynorthwyo

Mae ffocws y cylch hwn ar gynorthwyo plant a phobl ifanc sydd wedi bod neu sydd mewn risg uchel o gael eu heffeithio gan drais, troseddu a/neu gamfanteisio. Ein nod yw atal trais rhag digwydd neu ailddigwydd, er mwyn i ni allu lleihau niwed tymor hir.

*Cyfeirir at raglenni wedi'u hanelu at bobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio eisoes gan drais, troseddu a/neu gamfanteisio fel **atal** trydyddol Yn y canllaw hwn byddwch yn ei weld yn cael ei gyfeirio ato fel 'lefel drydyddol'.*

**Rydym yn bwriadu cyllido ac arfarnu prosiectau sy'n targedu, cynorthwyo a gweithio â phlant a phobl ifanc sy'n:**

- 10 i 18 oed yn bennaf.

**Ac** mae ganddynt un neu fwy o'r prif nodweddion neu anghenion canlynol sydd heb eu hateb::

- Aelodaeth o grwpiau (yn aml cyfeirir atynt fel gangiau) sy'n cymryd rhan mewn troseddu, trais a masnachu mewn pobl.
- Wedi'u heffeithio gan drais difrifol, camfanteisio troseddol neu rywiol (fel troseddwyr a/neu ddioddefwyr).
- Rhan o deuluoedd â hanes o ymddygiad niweidiol neu heriol a chylchoedd ailadroddol o gamdriniaeth, trawma ac esgeulustod.

**Ac** are:

- Mewn cysylltiad â gwasanaethau sy'n targedu troseddu ieuenctid a/neu aelodaeth o grwpiau sy'n cymryd rhan mewn trais a/neu droseddu plant neu gamfanteisio rhywiol.
- Wedi bod yn y ddalfa neu'n adnabyddus i'r heddlu a thimau diogelu amlasiantaeth.

Rydym yn gwybod bod rhai plant a phobl ifanc yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder ieuenctid neu'n cael trafferth i gyrchu gwasanaethau cymorth prif lif. Yn ein cylch grant Oedolyn dibynadwy, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn prosiectau sy'n gallu dangos eu bod yn llwyddiannus ac yn cynorthwyo'r grwpiau hyn yn briodol. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifol hiliol Du, Asiaidd ac eraill a'r rheini sydd â phrofiad o ofal, yn ogystal â menywod ifanc a merched. Am ragor o wybodaeth am ein hymrwymiad at gydraddoldeb, edrychwch yma.

## Beth rydym yn bwriadau ei gyllido

Rydym yn bwriadu cyllido prosiectau sy'n dynodi naill ai oedolyn o **fentor** neu **weithiwr allweddol neu achos** i blant neu bobl ifanc fel oedolyn dibynadwy.

Mae'n rhaid i geisiadau gynnwys un o'r ddwy ymagwedd hon a chynorthwyo plant a phobl ifanc â'r nodweddion/anghenion heb eu hateb y manylir arnynt yn yr adran Pwy rydym yn bwriadu eu cynorthwyo. Nid yw prosiectau sydd ddim yn ateb y meini prawf hyn yn gymwys i ymgeisio am y cylch grant hwn.

**Mae hynny'n golygu y byddwn yn buddsoddi yn:**

**1. Prosiectau mentora (lefel drydyddol)** - mae hyn yn cynnwys dynodi mentor o oedolyn i blant neu bobl ifanc.

**Yr hyn rydym yn ei olygu:**

*Mae mentora yn paru plentyn neu unigolyn ifanc â mentor ac yn eu hannog i gyfarfod yn rheolaidd. Mae'n anelu at helpu'r plentyn i ffurfio perthynas dda â model rôl cadarnhaol. Gallai'r berthynas hon helpu'r plentyn i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, ffurfio perthnasoedd adeiladol ag eraill, a datblygu ymddygiadau a dyheadau cadarnhaol. Yn y cylch grant hwn mae gennym ddiddordeb mewn prosiectau â mentoriaid sy'n oedolion yn unig, ac nid mentoriaid cymheiriaid neu aelodau o'r teulu.*

**Gall gweithgareddau gynnwys:**

- Adeiladu perthnasoedd ymddiriedol gwirioneddol sy'n arddangos gofal am yr unigolyn ifanc a'i ddyfodol.
- Gosod nodau, cymell pobl ifanc a'u grymuso i ddatrys problemau.
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd i fynd i'r afael â materion ymarferol megis tai, cyflogaeth a dyled.
- Cyfeirio at ac eirioli dros fynediad at wasanaethau eraill.
- Cymryd rhan yn weithredol mewn newid agweddau a meddwl a datblygu sgiliau ar gyfer meddwl myfyriol.
- Canfod cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol (e.e. chwaraeon, theatr, cerddoriaeth).

**2. Prosiectau gweithwyr allweddol a gweithwyr achos (lefel drydyddol)** - mae hyn yn cynnwys plant neu bobl ifanc yn cael eu dynodi â gweithiwr allweddol neu weithiwr achos.

**Yr hyn rydym yn ei olygu:**

*Mae gweithiwr allweddol, neu weithiwr achos, yn ddull o ddarparu gwasanaeth sy'n cynnwys unigolyn sy'n gweithio mewn rôl gyfarwyddo â phlant. Gall gynnwys gweithwyr YOT neu weithwyr cymdeithasol, yn ogystal â gweithwyr ieuenctid eraill. Mae'r gweithiwr yn gweithredu fel pwynt cyswllt unigol, gan helpu i gyd-drefnu mathau gwahanol o ofal a chymorth i'r plentyn o fewn yn ogystal ag ar draws systemau, er enghraifft addysg, gwasanaethau cymdeithasol, adnoddau ariannol, hamdden a thrafnidiaeth. Prif bwrpas rôl y gweithiwr yw darparu cymorth, adnoddau a gwybodaeth i'r plentyn wedi'u teilwra i ateb ei anghenion unigol*.*

**Gall gweithgareddau gynnwys:**

- Gall gweithgareddau gynnwys:
- Adeiladu perthnasoedd ymddiriedol gwirioneddol sy'n arddangos gofal am yr unigolyn ifanc a'i ddyfodol.
- Asesu angen a chymorth wedi'i deilwra i bob unigolyn ifanc.
- Gweithio ag oedolion o gwmpas y plentyn.
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd i fynd i'r afael â materion ymarferol megis tai, cyflogaeth a dyled.
- Cyfeirio at ac eirioli dros fynediad at wasanaethau eraill.

Mae'n rhaid i bob prosiect a gyllidir trwy'r cylch grant hwn **gynnwys mentora** neu weithiwr **allweddol/achos**, ond maen nhw'n **gallu cynnwys cydrannau eraill** yn ogystal. Gallai cydrannau eraill, fel yr awgrymir yn y gweithgareddau a restrir uchod, gynnwys: gwaith therapiwtig; gweithgareddau hamdden cadarnhaol; cyfeirio at wasanaethau eraill, yn cynnwys eiriolaeth neu gymorth mewnfudo; addysg, cyflogaeth neu gyfleoedd hyfforddi; cymorth tai; cymorth cyllid a dyled; neu gymorth cyffuriau ac alcohol.

Mae gennym ddiddordeb mewn prosiectau sy'n helpu pobl ifanc i adael grwpiau sy'n cymryd rhan mewn troseddu, trais neu gamfanteisio (cyfeirir atynt yn aml fel 'ymyriadau rhoi terfyn ar gangiau'). Nid yw chwaraeon yn cael eu hystyried yn weithgaredd sy'n sefyll ar eu hunain yn y cylch hwn, ond byddem yn ystyried prosiectau sy'n integreiddio chwaraeon â chymorth gan fentor neu weithiwr allweddol/achos.

Fel rhan o'r prosiectau mentora gweithiwr allweddol/achos rydym yn bwriadu eu cyllido, gall plant a phobl ifanc gael eu hatgyfeirio at y prosiect o waith ieuenctid ar wahân neu ymestyn, yn ogystal â llwybrau atgyfeirio eraill, megis gwasanaethau statudol.

* Mae'n diffiniad o weithwyr allweddol/achos wedi cael ei addasu o waith CanChild.

### Galwad am wybodaeth: Modelau torri ar draws trais

Yn ogystal â phrosiectau mentora a gweithiwr allweddol/achos, ymagwedd arall y mae gennym ddiddordeb mewn dysgu mwy amdani yw modelau torri ar draws trais.

### Yr hyn rydym yn ei olygu

*Mae modelau torri ar draws trais yn recriwtio pobl sy'n defnyddio'u perthnasoedd personol, profiad o fyw a safle yn y gymuned i fynd i'r afael ag anghydfodau parhaol ac yn eu hatal rhag gwaethygu i drais difrifol. Gallai eu gweithgareddau gynnwys darbwyllo unigolion a grwpiau allan o ddigwyddiadau treisgar a gynllunnir neu ddod â'r rheini sy'n cymryd rhan ynghyd i 'leddfu' gwrthdrawiadau. Gallai ymagweddau cyfryngu hefyd gael eu hystyried fel rhan o fodelau torri ar draws trais.*

Ar hyn o bryd ychydig o astudiaethau cadarn sydd ar gael ar effaith modelau torri ar draws trais. I'n helpu i ddeall yn well sut mae'r ymagwedd wedi cael ei mabwysiadu yng Nghymru a Lloegr ac os gallwn arfarnu'r model yn ymarferol, **rydym yn gwahodd sefydliadau sy'n darparu modelau torri ar draws trais i gysylltu a dweud mwy wrthym am eu gwaith**.

Os ydym yn teimlo ar ôl ein sgwrs y gallai'ch model torri ar draws trais gael ei werthuso'n effeithiol, gallwn eich gwahodd i gyflwyno cais trwy ein rownd cyllido *Oedolyn dibynadwy* neu archwilio opsiynau gwerthuso eraill gyda chi.

Os ydych chi'n darparu prosiect torri ar draws trais, cysylltwch â ni cyn i chi ymgeisio. Am ragor o wybodaeth, ymwelwch â'n gwefan.

## Hyd darparu a chyllido'r prosiect

Yn y cylch hwn rydym yn bwriadu buddsoddi mewn cymysgedd o brosiectau tymor byr a hir.

- Rydym yn diffinio **prosiectau tymor byr** fel ymyriadau sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc am gyfnod o rhwng 5 i 12 mis.
- Rydym yn diffinio **prosiectau tymor hir** fel ymyriadau sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc am gyfnod o rhwng 12 mis i 24 mis.

**Mae hyn yn golygu na fyddwn yn buddsoddi mewn prosiectau sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc am lai na 5 mis na mwy na 24 mis.**

Yn y cyfarwyddyd hwn nid ydym wedi manylu ar hyd yr amser y byddwn yn cyllido prosiectau drostynt. Rydym yn awyddus i weithio â phrosiectau unigol i adnabod y cyfnod o amser sydd ei angen i werthuso'r ymyriad yn effeithiol. Mae eisiau hefyd sicrhau arnom bod prosiectau wedi'u cyllido yn adeiladu mewn amser digonol ar gyfer atgyfeiriadau ac adeiladu perthnasoedd â'r plant a phobl ifanc maen nhw'n bwriadu eu cynorthwyo. Yn ein ffurflen gais, byddwn yn gofyn i chi ddarparu naill ai gyllideb dwy neu dair blynedd, ond sylwch, mynegol yw hyn yn unig. Pe byddai'ch prosiect yn symud ymlaen i gam nesaf ein proses ymgeisio (rydym yn galw hyn ein cam 'cydgynllunio' – gweler y blwch isod am ragor o fanylion), byddwn yn gweithio â chi a'n partneriaid ymchwil annibynnol i bennu'r cyllid a chyfnod y cyllid fyddai ei angen arnom i allu rhedeg arfarniad cadarn.

### Beth yw 'cydgynllunio'?

Bydd prosiectau sy'n cael eu rhoi ar restr fer yn cael eu gwahodd i symud ymlaen i gam nesaf ein proses ymgeisio: 'cydgynllunio'. Yn ystod y cam hwn byddwch yn gweithio'n agos â'ch partner o arfarnwr i greu cynllun manylach ar gyfer darparu'ch prosiect. Byddant yn eich helpu i:

- Ddiffinio'ch canlyniadau yn glir.
- Meddwl yn feirniadol am eich prosiect a damcaniaeth newid ac adnabod meysydd i'w gwella.
- Creu cynllun gweithredu manwl.
- Creu cynllun cost manwl i sicrhau bod gennych yr adnoddau a chapasiti i ddarparu'ch prosiect a chynorthwyo ei arfarnu.

I ddarllen mwy am ein proses ymgeisio, edrychwch yma.

## Ein hymrwymiad at gydraddoldeb

Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd a gafodd eu hymylu – gan gynnwys plant Du ac Asiaidd yn ogystal â phobl ifanc a phlant sydd wedi bod mewn gofal – wedi'u gorgynrychioli'n sylweddol yn y system cyfiawnder ieuenctid. Os ydym yn mynd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol, mae angen i ni sicrhau bod ein cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cyrraedd ac yn cynrychioli'r plant rydym yma i'w gwasanaethu.

Trwy ein cylch grant *Oedolyn dibynadwy* , **rydym yn ymrwymo i gyllido o leiaf un prosiect sy'n cael ei arwain gan arweinyddion Du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig eraill**.

Yn ogystal â chroesawu ceisiadau gan sefydliadau sy'n gweithio er lles plant a phobl ifanc o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig, mae gennym ddiddordeb hefyd mewn prosiectau sy'n defnyddio mentora neu weithwyr allweddol/achos i **gynorthwyo menywod ifanc a merched Du sydd wedi cael eu heffeithio gan drais, troseddu neu gamfanteisio** yn benodol.

Trwy ein hymchwil ac ymgynghori cynnar, rydym yn gwybod bod hyn yn faes sy'n brin o dystiolaeth. Mae eisiau helpu i newid hyn arnom. Rydym yn credu trwy fuddsoddi mewn ymchwil o ansawdd uchel a rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu ag ymarferwyr, gwneuthurwyr polisi a chomisiynwyr, rydym yn gallu helpu plant a phobl ifanc i gael cymorth sydd â'r cyfle gorau o wneud gwahaniaeth. Dyna pam rydym yn awyddus i glywed gan brosiectau sy'n gweithio'n agos â menywod ifanc a merched Du, a all ein helpu i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth hon a gwella'n dealltwriaeth am y rôl. dylanwad ac effaith perthynas oedolyn dibynadwy yn eu bywydau.



# Beth sydd allan o'r cwmpas ar gyfer y cylch hwn

## Gwaith ieuenctid ar wahân ac ymestyn

Yn y cylch grant hwn ni **fyddwn** yn cyllido prosiectau lle mai'r prif weithgareddau yw **gwaith ieuenctid ar wahân** neu **waith ieuenctid ymestyn** (er y gall y gweithgareddau hyn gael eu defnyddio i atgyfeirio plant a phobl ifanc ymlaen at eich prosiect mentora neu weithiwr allweddol/achos).

Mae gwaith ieuenctid ar wahân yn ogystal ag ymestyn yn ddibynnol ar berthnasoedd oedolyn dibynadwy. Maen nhw hefyd ym ymagweddau a allai elwa o dystiolaeth gadarnach ac arfarniadau effaith i ddeall eu heffaith ar drais ieuenctid yn well. Fodd bynnag, oherwydd eu cymhlethdod ac amrywiodeb, mae'r dulliau ymchwil sydd eu hangen i arfarnu'r ymagweddau hyn yn effeithiol yn debygol o fod yn wahanol iawn i'r rheini sydd eu hangen ar gyfer mentora neu brosiectau gweithiwr allweddol/achos, sydd fel arfer yn darparu cynigion cymorth mwy cyson a diffiniedig.

Am y rheswm hwn, rydym wedi penderfynu cadw  gwaith ieuenctid ar wahân a gwaith ymestyn **allan o'r cwmpas ar gyfer y cylch hwn**. Yn hytrach, byddwn yn cyhoeddi cynlluniau ymchwil ar wahân ar gyfer y ddwy ymagwedd hon. Mae rhagor o fanylion am ein cynlluniau, llinellau amser a chyfleoedd i'w canfod ar ein gwefan yma.

### Prosiectau ac arferion eraill allan o gwmpas

Other approaches, projects and practices which are **out of scope** for this round include:

- Prosiectau sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd heb o leiaf un o'r prif nodweddion neu anghenion heb eu hateb a amlinellir (gweler yma).
- Prosiectau lle mae aelodau'r teulu yn cael eu hystyried yn 'oedolion dibynadwy'.
- Prosiectau lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu mentora gan eu cymheiriaid, nid 'oedolion dibynadwy'.
- Ymarferwyr gwirfoddol neu daledig sydd heb yr wybodaeth, sgiliau na hyfforddiant perthnasol i ddarparu gweithgareddau o ansawdd uchel a diogel i blant a phobl ifanc.
- Ymagweddau sy'n amhendant neu sydd heb ffrâm amser i'w darparu.
- Prosiectau sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc am lai na phum mis.
- Prosiectau sydd ddim yn cael eu darparu yn naill ai Lloegr a/neu Gymru.

# Beth rydym yn gobeithio ei gyflawni

Y cwestiwn ymchwil trosfwaol ar gyfer y cylch cyllido hwn yw: **A yw ymagweddau sy'n canolbwyntio ar adeiladu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedol ag oedolyn y tu allan i amgylchedd y teulu, yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc (10-18 oed yn bennaf) â'r anghenion mwyaf heb eu hateb sy'n eu rhoi mewn perygl o gael eu heffeithio gan drais, troseddu a / neu gamfanteisio?**

Er mwyn ein helpu i ateb y cwestiwn hwn, rydym yn bwriadu adnabod a chyllido'r prosiectau mwyaf addawol ac arfarnu eu heffaith yn erbyn y canlyniadau a restrir isod.

### Canlyniadau

Wrth ganlyniadau, rydym yn golygu'r newidiadau cadarnhaol y byddech yn gobeithio gweld eich prosiect yn eu gwneud i'r plant a'r bobl ifanc rydych yn gweithio â nhw.

## Prif ganlyniadau o ddiddordeb ar gyfer ein cylch grant *oedolyn dibynadwy*

Prif ffocws y cylch grant hwn yw deall yn well a yw perthnasoedd oedolyn dibynadwy yn gallu lleihau ymddygiad troseddol (troseddau treisgar ac heb fod yn dreisgar) mewn plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod oherwydd cyfyngiadau o gwmpas meintiau sampl prosiect a hyd y cymorth nad yw'n bosibl bob amser i arfarnu'r canlyniadau hyn. Rydym felly wedi adnabod nifer o brif ganlyniadau eraill y mae gennym ddiddordeb yn eu harfarnu hefyd. Ein prif ganlyniadau diddordeb yw:

| CANLYNIAD | DIFFINIAD |
|---|---|
| Anawsterau ymddygiadol | Hefyd yn cael eu galw'n 'ymddygiadau sy'n allanoli'. Gofid neu anghenion unigolyn ifanc wedi'u mynegi trwy ymddygiadau sy'n cael eu categoreiddio'n gyffredinol fel amharol ac ymosodol. |
| Torri'r gyfraith neu 'ymddygiad tramgwyddol' - troseddu treisgar | Gweithredoedd troseddol sy'n ymwneud â niwed yn erbyn unigolyn arall (e.e., ymosod, lladrad yn defnyddio bygythiad neu rym, dynladdiad). |
| Breaking the law or 'offending behaviour' - non-violent crime | Criminal behaviours that do not involve violence against another person (e.g. shoplifting, graffiti, using illegal drugs). |
| Torri'r gyfraith neu 'ymddygiad tramgwyddol' - troseddu heb fod yn dreisgar | Ymddygiadau troseddol sydd ddim yn cynnwys trais yn erbyn unigolyn arall (e.e. dwyn o siop, graffiti, defnyddio cyffuriau anghyfreithlon). |
| Cymheiriaid o droseddwyr | Cael grŵp agos o bobl sy'n cymryd rhan mewn ac yn hyrwyddo ymddygiad troseddol – gall ymddygiad troseddol fod yn rhan bwysig o hunaniaeth y grŵp. |
| Defnydd cyffuriau ac alcohol | Hefyd yn cael ei alw'n 'gamddefnydd sylweddau'. Defnydd problematig o gyffuriau a/neu alcohol sy'n arwain at ganlyniadau negyddol a niweidiol i'r hunan neu eraill, megis iechyd corfforol wedi'i amharu, anawsterau yn canolbwyntio neu'n chwarae triwant. |
| Dioddefwr trosedd | Hefyd yn cael ei galw'n 'erledigaeth droseddol'. Cael profiad, neu fod yn ddioddefwr, o fathau gwahanol o droseddu gan gynnwys lladrata, dwyn, fandaliaeth, ymosodiad a chipio. |

## Canlyniadau eilaidd o ddiddordeb ar gyfer ein cylch grant *Oedolyn dibynadwy*

Yn ogystal â'n prif ganlyniadau, mae gennym ddiddordeb hefyd yn y canlyniadau ehangach y gall prosiect effeithio'n gadarnhaol arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

| CANLYNIAD | DIFFINIAD |
|---|---|
| Gallu i ddatrys gwrthdrawiadau | Hefyd yn cael ei alw'n 'ddatrys gwrthdaro'. Bod â'r sgiliau a thechnegau i ddad-ddwysáu sefyllfaoedd a dadleuon â neu rhwng pobl eraill. |
| Gorbryder | Pryder parhaus, gofid neu anesmwythyd, yn aml yng nghwmni symptomau corfforol, sy'n digwydd am sawl wythnos neu fis. |
| Adeiladu a chynnal perthnasoedd | Hefyd yn cael eu galw'n 'sgiliau cymdeithasol emosiynol'. Sgiliau cymdeithasol ac emosiynol sydd o gymorth mewn perthnasoedd megis gwrando, cydweithredu a deall emosiynau eraill yn ogystal â'ch rhai eich hun. Mae datrys gwrthdaro hefyd yn rhan o adeiladu a chynnal perthnasoedd. |
| Camfanteisio troseddol | Unigolyn neu grŵp â phŵer helaethach sy'n gorfodi, trin neu dwyllo plentyn neu unigolyn ifanc o dan 18 i gymryd rhan mewn gweithgaredd troseddol. |
| Iselder | Hwyl isel barhaus, diffyg pleser a lefelau uchel o bryder sy'n digwydd am sawl wythnos neu sawl mis. |
| Profiad o ddigwyddiadau trawmatig posibl | Profi neu fod yn dyst i ddigwyddiadau gofidus diweddar neu barhaol sy'n gallu arwain at effaith negyddol barhaol ar rai. |
| Nodau ar gyfer y dyfodol | Gosod nodau personol ystyrlon ar gyfer y dyfodol a bod â chynllun ar gyfer sut i'w cyrraedd. |
| Hapusrwydd | Llesiant cadarnhaol, mwynhau pethau, a theimlo'n dda amdanoch eich hun a'ch bywyd. |
| Helpu eraill | Hefyd yn cael eu galw'n 'ymddygiadau cymdeithasol-fuddiol'. Gwneud pethau cadarnhaol i bobl eraill, megis eu helpu a'u cysuro a rhannu pethau â nhw. |
| Problemau tai | Mae problemau tai yn cynnwys er enghraifft gorlenwi, llety dros dro, symudoldeb preswyl ac amodau anniogel/anaddas. |
| Gwasanaethau wedi'u cyd-drefnu | Hefyd yn cael ei alw'n 'gydweithio amlsystemig'. Gweithwyr proffesiynol o amrediad o wasanaethau yn gweithio â'i gilydd i gynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol (e.e., addysg, iechyd, cyfiawnder ieuenctid, gofal cymdeithasol). |
| Camdriniaeth a dilorni | Profiad o esgeulustod corfforol neu emosiynol neu gamdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol. |
| Perthnasoedd ystyrlon | Cael rhywun yn eich bywyd sy'n eich deall chi ac sydd yno i chi. Yma, mae perthnasoedd a phobl sy'n deisyf y gorau i chi – rhywun sydd ddim am i chi fod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol. |
| Cyfleoedd ar gyfer addysg, cyflogaeth a hyfforddiant | Cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc i ffynnu trwy addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. |

| CANLYNIAD | DIFFINIAD |
|---|---|
| Hunaniaeth gadarnhaol a chymdeithasol-fuddiol | Gweld eich hun fel rhywun sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol ac ystyrlon ac nid mewn gweithgareddau troseddol. |
| Darpariaeth o weithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol | Mynediad at weithgareddau cadarnhaol i blant a phobl ifanc yn y gymuned. |
| Hiliaeth a gwahaniaethu | Profi rhagfarn, gwahaniaethu, neu elyniaeth ar sail aelodaeth (neu aelodaeth ganfyddedig o grŵp hiliol neu ethnig wedi'i ymylu. Mae'n cynnwys gwahaniaethu ac aflonyddu anuniongyrchol ac uniongyrchol. Mae'n cynnwys canlyniadau negyddol hefyd a brofir o ganlyniad o wneud cwyn am hiliaeth a gwahaniaethu. |
| Rheoleiddio a rheoli emosiynau | Hefyd yn cael ei alw'n 'rheoleiddio emosiwn'. Bod â'r sgiliau a thechnegau i reoli teimladau ac adweithiau i sefyllfaoedd a digwyddiadau, gan leihau dwyster, hyd, ac effaith y fath deimladau. |
| Hunan-barch | Gweld eich hun yn gadarnhaol, gan gynnwys hyder yn eich galluoedd, ymddangosiad a hunan-werth. |
| Camfanteisio rhywiol | Unigolyn neu grŵp â grym helaethach sy'n gorfodi, trin neu dwyllo plentyn neu unigolyn ifanc o dan 18 i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol; gall hyn ddigwydd trwy gysylltiad corfforol neu'r defnydd o dechnoleg. Gall yr orfodaeth hon gymryd y ffurf o ddarparu rhywbeth sydd ei eisiau ar y plentyn neu unigolyn ifanc, neu gall fod er budd ariannol y rheini a phŵer helaethach. |

Ni ddisgwylir y bydd prosiectau wedi'u cyllido yn cael eu harfarnu ar bob prif ganlyniad a chanlyniad eilaidd a restrir yma. Bydd prosiectau sydd ar y rhestr fer i gam nesaf ein proses ymgeisio yn gweithio â'u harfarnwr a ddewisir i bennu'r canlyniad(au) mwyaf addas i gael eu harfarnu.

## Adeiladu gwybodaeth

Fel rhan o'n cwestiwn ymchwil trosfwaol ar gyfer y rownd, rydym yn bwriadu cyllido ac arfarnu cymysgedd o brosiectau mentora a gweithiwr allweddol/achos fydd yn ein helpu i ddeall yn well yr hyn sy'n gweithio, pam ac i bwy. Mae rhai o'r cwestiynau penodol ynghylch sut mae prosiectau'n cael eu strwythuro a'u darparu yn cynnwys:

- A yw prosiectau mentora a gweithiwr allweddol/achos yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc a effeithir gan drais, troseddu a/neu gamfanteisio?
- Sut mae hyd a dwyster y cymorth yn effeithio ar ganlyniadau?
- Sut mae targedu cymorth at anghenion a phrofiadau grwpiau penodol o blant a phobl ifanc yn effeithio ar ganlyniadau (er enghraifft, plant a phobl ifanc o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig eraill, menywod ifanc a merched, plant carcharorion, a'r rheini a effeithir gan gamfanteisio troseddol ar blant neu gamfanteisio rhywiol ar blant)?
- Sut mae integreiddio cymorth un-i-un gan oedolyn â chydrannau eraill, megis gwaith therapiwtig neu gymorth ymarferol arall, yn effeithio ar ganlyniadau?
- Pa fecanweithiau, ffactorau ac ymarferion (er enghraifft, profiad y mentor neu weithiwr allweddol/achos, lleoliad y ddarpariaeth neu integreiddiad â gwasanaethau statudol eraill) yn gwella canlyniadau?

# Llinell amser

| | |
|---|---|
| 30ain Medi 2022 | **Ceisiadau yn agor** |
| 25fed Tachwedd 2022 | **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau** |
| canol Chwefror 2023 | **Ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu hysbysu** |
| canol i ddiwedd Chwefror 2023 | **Asesiadau:** Cyfweliadau ag ymgeiswyr ar y rhestr fer |
| Mawrth 2023 | **Cymeradwyaeth gychwynnol** |
| Ebrill i Fehefin 2023 | **Sesiynau paratoi a chyflwyno cydgynllunio** |
| Mai 2023 | **Penodi arfarnwr annibynnol** |
| Mehefin 2023 | **Cydgynllunio ag arfarnwr** Am ragor o wybodaeth, gweler 'Beth sy'n digwydd nesaf'. |
| Medi 2023 | **Cymeradwyaeth derfynol** |
| Hydref 2023 | **Darparu yn dechrau** |

# Cyfarwyddyd penodol

**Mae gweddill y cyfarwyddyd hwn wedi'i dorri i bump adran:**

1. **Dysgu am yr hyn sy'n gweithio**
   Mae'r adran hon yn amlinellu lle i ganfod gwybodaeth am y dystiolaeth ar sut mae rhaglenni oedolion dibynadwy yn gallu atal plant rhag cymryd rhan mewn trais. Bydd hyn yn eich helpu i ddefnyddio tystiolaeth i ddangos sut fydd arfarnu ychwanegol o'ch prosiect yn ein helpu i ddysgu mwy am yr hyn sy'n gweithio.

2. **Sut y byddwn yn asesu'ch cais**
   Mae'r adran hon yn amlinellu'r meini prawf y byddwn yn eu defnyddio i asesu'ch cais.

3. **Sut i ymgeisio: defnyddio ein porth ar-lein**
   Mae'r rhan hon o'r cyfarwyddyd yn esbonio sut i sefydlu'ch ffurflen gais ac yn esbonio sut i'w defnyddio.

4. **Sut i ymgeisio: sut i ymateb i'n cwestiynau – canllaw cam wrth gam**
   Mae'r adran hon yn esbonio sut y byddwn yn asesu'ch cais a'r hyn rydym yn chwilio amdano yn eich ateb i bob un o'r cwestiynau yn y ffurflen ar-lein..

5. **Beth sy'n digwydd nesaf**
   Rydym yn esbonio beth i'w ddisgwyl pan fyddwch wedi cyflwyno'ch cais..



## 1. Dysgu am yr hyn sy'n gweithio

Rydym yn defnyddio'n cyllid i ddysgu pa ymagweddau, arferion  a rhaglenni sy'n gweithio orau. Mae hyn yn golygu y byddwn **yn blaenoriaethu'n cyllid ar weithgaredd lle gallwn redeg arfarniadau trwyadl**. Bydd hynny'n golygu prosiectau sy'n darparu eisoes ac yn gallu dangos i ni **rywfaint o dystiolaeth sy'n bodoli** eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc a bydd yn barod am fath cadarn o arfarniad.

Mae damcaniaeth gref o newid (sy'n disgrifio'ch nodau tymor hir ac yn mapio yn ôl i esbonio sut fydd eich ymyriad yn eich cael chi yno), yn gallu'n helpu ni i ddeall sut mae'ch prosiect yn gweithio. Yn benodol, sut mae'r gweithgareddau rydych yn eu darparu yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell i'r plant a'r bobl ifanc rydych yn eu cynorthwyo. Fodd bynnag, nid yw gallu disgrifio'ch damcaniaeth o newid yn awr yn ofyniad i dderbyn cyllid.

Mae bod yn bartner YEF yn ymrwymiad mawr. Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r hyn fydd ei angen arnom oddi wrthych i wneud i'r bartneriaeth  weithio i bawb. Os yw'ch cais yn llwyddiannus, bydd YEF yn mynd trwy broses dendro gystadleuol i adnabod arfarnwr addas o'n panel cymeradwy. Bydd y broses hon o ddewis arfarnwr yn cael ei gwneud gennym ni. Bydd yr arfarnwr dynodedig wedyn yn gweithio â chi i sefydlu'r prosiect a chynllunio'r arfarniad gorau posibl i ddysgu os, sut a pham mae'ch ymagwedd yn gweithio. Byddwn yn gweithio fel tîm ac yn sicrhau eich bod yn cael eich cynorthwyo trwy gydol y broses arfarnu. I ddysgu mwy am y broses gallwch wylio'r fideo hwn sy'n esbonio'n hymagwedd at arfarnu a darllen trwy'n cyfarwyddyd sy'n esbonio'r berthynas â'r arfarnwr a'ch rôl a'ch cyfrifoldebau chi.

I ddysgu am yr hyn rydym yn ei olygu pan fyddwn yn siarad am fathau gwahanol o arfarnu, gallwch ddarllen ein cyfarwyddyd ar gyfer arfarnwyr. Gallai 10 Cam ar gyfer Llwyddiant Arfarnu y Sefydliad Ymyriad Cynnar fod o gymorth hefyd.

Sylwch nad ydym yn disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus fod ag unrhyw arbenigedd neu wybodaeth dechnegol o dechnegau arfarnu. Rydym ond yn disgwyl eich bod yn ymrwymo i gael eich arfarnu'n annibynnol a gweithio'n agos â'r arfarnwr trwy gydol y prosiect, gan gynnwys cam sefydlu a chynllunio, darparu, casglu ac adrodd am ddata.



# 2. Sut y byddwn yn asesu'ch cais

Bydd gennym dîm o aseswyr fydd yn adolygu'ch cais ac yn ei sgorio yn seiliedig ar wyth peth rydym yn chwilio amdanynt.

Byddwn yn defnyddio'r sgoriau hyn i dynnu rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer asesiad ychwanegol, fydd yn cynnwys cyfweliad a mewnbwn gan bobl ifanc sydd wedi helpu i lunio'r cylch grant hwn.

Yr wyth maen prawf y byddwn yn sgorio'ch cais arnynt yw:

**1 Canlyniad gwerth chweil**

Rydym yn ceisio asesu, os byddwch yn darparu'ch prosiect yn dda, a fydd y canlyniad rydych chi'n gobeithio ei gyflawni yn atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais.

I wneud yr asesiad hwnnw, byddwn yn edrych ar yr hyn rydych chi'n dweud eich bod yn ceisio'i gyflawni a pha dystiolaeth sydd gennych – neu beth rydym yn gwybod o ymchwil arall- sy'n awgrymu y gall eich prosiect atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais.

**2 Os bydd yn cael ei ddarparu'n dda, mae'n debygol o gyflawni'r canlyniad**

Rydym yn gofyn dau brif beth i'n hunain:

a. Ydych chi wedi esbonio'n glir beth mae'r prosiect yn ei olygu a sut mae'n arwain at y newid rydych chi am ei weld i'r plant rydych chi'n gweithio â nhw? Mae hyn yn cael ei alw'n ddamcaniaeth newid weithiau, sy'n ddull i'ch helpu i ddisgrifio'ch nodau tymor hir ac yn mapio yn ôl i esbonio sut fydd eich prosiect yn eich cael chi yno. Mae gennym ddiddordeb mewn deall beth mae'r dystiolaeth sy'n bodoli yn ei ddweud am ba mor llwyddiannus mae'ch dewis weithgareddau yn debygol o fod , pa mor glir y gallwn ddeall eich gweithgareddau arfaethedig, ac a yw'r cyfnod amser rydych chi'n bwriadu rhedeg eich gweithgareddau yn ymddangos yn rhesymol.

b. Beth mae'r dystiolaeth yn ei dweud am ba mor effeithiol mae'ch prosiect yn debygol o fod? Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau lle mae tystiolaeth fod eich prosiect yn gallu cael ei weithredu'n llwyddiannus ac mae'n arwain at newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

**3 Anelu at gyrraedd y math cywir o blant a phobl ifanc**

Rydym yn ceisio asesu os yw'r plant a phobl ifanc rydych chi'n bwriadu gweithio â nhw mewn angen mwyaf o gymorth. Yn y cylch grant hwn fydd yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n 10-18 oed yn bennaf ac sydd wedi bod neu sydd mewn perygl uchel o gael eu heffeithio gan drais, troseddu, a /neu gamfanteisio, i atal ailddigwydd a lleihau niwed tymor hir. Cyfeiriwch at y nodweddion/anghenion heb eu hateb y manylir arnynt yn yr adran Pwy rydym yn bwriadu eu cynorthwyo.

Rydym yn gwybod bod rhai plant a phobl ifanc yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder ieuenctid neu'n cael trafferth i gyrchu gwasanaethau cymorth prif lif. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn prosiectau sy'n gallu dangos eu bod yn cynorthwyo'r bobl ifanc hyn yn llwyddiannus ac yn briodol. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig eraill a phlant sydd wedi bod mewn gofal, yn ogystal â menywod ifanc a merched.

### 4 Tebygol o arwain at newid yn y dyfodol

Rhan graidd o strategaeth YEF yw graddio'r prosiectau rydym yn canfod sy'n gweithio'. Pan fydd prosiect yn cael ei ddangos i fod yn effeithiol, byddwn yn bwriadu ei ehangu. Gallai hynny gynnwys ehangu'r ddarpariaeth bresennol neu ddyblygu prosiectau mewn lleoliadau newydd ar draws eu rhwydweithiau.

Dyna pam y byddwn yn asesu a fyddai'n bosibl, os cafodd eich prosiect ei brofi i weithio, i ddechrau darparu'r gweithgaredd mewn meysydd newydd, darbwyllo sefydliadau eraill i ymgymryd â dysgu o'ch gwaith neu i ddylanwadu ar eraill sut maen nhw'n gweithio er mwyn rhoi budd i bobl ifanc.

### 5 Tebygol o gyrraedd y math cywir o blant a phobl ifanc

Rydym yn ceisio asesu os oes gennych brofiad o gyrraedd y math o blant rydym yn gobeithio gweithio â nhw ac os oes gennych ddulliau credadwy a realistig ar gyfer eu cynnwys yn eich prosiect.

### 6 Gallu darparu

Rydym yn ceisio asesu pa mor debygol y mae y byddwch yn gallu darparu'ch cynnig. I wneud hyn, byddwn yn edrych ar eich profiad blaenorol, y cymorth, hyfforddiant a goruchwyliaeth rydych yn eu darparu i staff darparu, a'ch dealltwriaeth o'r risgiau amrywiol a sut i'w lliniaru.

### 7 Arfarnadwy

Rydym yn ceisio asesu a ydym yn gallu arfarnu'r hyn rydych yn ei wneud yn gywir neu beidio. Mae hyn yn rhannol ynglŷn â sicrhau y byddwch yn gallu cyrraedd ac ymgysylltu a grŵp digon mawr o blant i gynnal treial rheoli ar hap (neu arfarniad trylwyr arall). Bydd hefyd ynglŷn a sicrhau eich bod yn fodlon i ymgysylltu ag arfanwr annibynnol. Yn gyffredinol, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau fydd yn barod ar gyfer y mathau hyn o arfarnu cyn gynted â phosibl.

### 8 Gallu darparu i'r nifer gywir o blant a phobl ifanc

Rydym yn ceisio asesu a ydych yn gallu gweithio â digon o blant neu beidio er mwyn i ni allu cynnal treial rheoli ar hap (neu arfarniad trylwyr arall). Ar gyfer rhai rhaglenni, byddwn yn asesu a ydych chi'n cyrraedd digon o blant i redeg astudiaeth cam cynharach neu os gallem ddod a phrosiectau ynghyd ag arferion tebyg i gymryd rhan mewn arfarniad 'aml-safle'.

# 3. Sut i ymgeisio: defnyddio ein porth ar-lein

Pan fyddwch wedi meddwl am y dystiolaeth a chwmpas y cylch grant hwn, gallwch ddechrau'ch cais ar-lein.

## Cyngor cais pwysig

**Byddem yn argymell ysgrifennu eich ymatebion mewn dogfen y medrwch ei arbed yn rheolaidd ac yna copïo'ch ymatebion i'n ffurflen pan fyddwch yn hapus â nhw. Felly, os oes unrhyw faterion technegol, ni fyddwch wedi colli'ch gwaith.**

## Cam un: canfod y ffurflen

Cliciwch y ddolen hon fydd yn mynd â chi i'n porth ar-lein. Rydym yn argymell defnyddio Google Chrome fel eich porwr os gallwch chi.

## Cam dau: cofnodwch eich gwybodaeth

Dechreuwch lenwi'r wybodaeth. Mae gennym gyfarwyddyd cam wrth gam ar sut i ymateb i bob cwestiwn yn y cyfarwyddyd hwn – gweler Sut i ymgeisio: sut i ymateb i'n cwestiynau – canllaw cam wrth gam.

**Pan fyddwch yn ysgrifennu, peidiwch â defnyddio'r botymau ymlaen ac yn ôl ar eich porwr, gan y gallech golli'ch gwaith. Yn hytrach, defnyddiwch y botymau Nesaf a Blaenorol i symud trwy'r ffurflen.**

## Cam tri: arbedwch a dewch yn ôl at eich gwaith

Arbedwch wrth i chi fynd ymlaen. Gallwch arbed eich gwaith ar unrhyw adeg a dychwelyd ato'n ddiweddarach, trwy glicio'r botwm Arbed ar bob tudalen. Pan fyddwch yn arbed, bydd e-bost yn cael ei anfon atoch sy'n cynnwys cyfrinair. Gallwch ddefnyddio'r cyfrinair i ddychwelyd at y ffurflen ac ailddechrau lle gwnaethoch adael.

## Cam pedwar: anfonwch eich cais atom

Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen, **peidiwch ag anghofio clicio Cyflwyno!** Os na fyddwch, ni fyddwn yn derbyn eich cais.

Pan fyddwch wedi anfon eich ffurflen wedi'i chwblhau atom, byddwch yn derbyn e-bost cadarnhad oddi wrthym. Byddwch hefyd yn gallu arbed a lawrlwytho eich cais, fel y gallwch ei ddefnyddio ar gyfer eich cofnodion personol.

## Data a phreifatrwydd

Os ydych am wybod sut rydym yn storio a defnyddio'r data yn eich ffurflen, gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd data. Os ydych chi am ddysgu mwy am rannu data rhwng rhai sy'n llwyddo i gael grantiau ac arfarnwyr, gallwch ddarllen y cyfarwyddyd ar ein harchif data diogel.

## Cysylltwch â ni

Os ydych yn cael trafferth defnyddio ein ffurflen ar-lein, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni. E-bostiwch grants@youthendowmentfund.org.uk gan nodi 'Ymholiad am rownd grantiau oedolyn dibynadwy' yn llinell pwnc eich e-bost.



# 4. Sut i ymgeisio: sut i ymateb i'n cwestiynau – canllaw cam wrth gam

## Ynglŷn â'r ffurflen gais

**Mae dau gam i'n ffurflen gais.**

### Cam un: gwiriad cymhwyster cyflym

Rydym am sicrhau bod y cyllid hwn yn gywir i chi. Rydym yn gwybod bod sefydliadau yn buddsoddi llawer o amser ac adnoddau mewn datblygu cynigion ac ymgeisio am gyllid. Dyna pam y bydd adran gyntaf ein ffurflen gais yn gwirio eich bod yn ateb yr holl feini prawf cymhwyster cyn i ni ofyn i chi gwblhau'r cais llawn.

Os ydych chi'n mynd trwy'r adran gyntaf hon ac rydych yn meddwl bod y system yn dosbarthu'ch cais yn anghymwys trwy gamgymeriad, gallwch e-bostio grants@youthendowmentfund.org.uk i ofyn cwestiwn a chael cymorth oddi wrthym.

Fel arall, cofrestrwch i gael ein llythyr newyddion i gadw golwg ar gyfleoedd yn y dyfodol â'r Gronfa Gwaddol ieuenctid a allai fod yn iawn i chi.

### Cam dau: y cais llawn

Mae saith rhan i'r broses ymgeisio lawn. Mae rhai o'r adrannau yno i'n helpu ni i ddeall mwy amdanoch chi fel yr ymgeisydd (megis manylion am eich sefydliad ac unrhyw sefydliadau rydych chi'n ymgeisio â nhw), Tra bod adrannau eraill yn darparu gwybodaeth fydd yn ein helpu i asesu cryfder eich cais.

Yn y cyfarwyddyd hwn, byddwn ni'n glir am ba adrannau rydym yn eu defnyddio i'n helpu i asesu'ch cais, yr hyn y byddwn yn eich asesu arno a'r wybodaeth rydym yn chwilio amdani i chi ei darparu mewn ymateb i bob cwestiwn.



## Cam un: gwiriad cymhwyster cyflym

### Cwestiynau:

1. **A yw eich sefydliad wedi'i gofrestru? Er enghraifft, ydych chi'n elusen gofrestredig, cwmni, corff statudol neu CIC?**

   Mae'n rhaid i chi fod yn gofrestredig i dderbyn cyllid gan y Gronfa Gwaddol Ieuenctid. Nid ydym yn derbyn ceisiadau gan unigolion na grwpiau heb eu cofrestru.

2. **Ydych chi'n gofyn am gyllid ar gyfer gwaith yn Lloegr a / neu Gymru?**

   Yn y Gronfa Gwaddol Ieuenctid, rydym yn darparu grantiau i sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn unig. Nid ydym yn gallu darparu cyllid i sefydliad nac unrhyw weithgaredd sy'n digwydd y tu allan i Gymru a Lloegr.

3. **Ai chi yw'r sefydliad sy'n arwain wrth wneud cais am grant i'r YEF?**

   I sicrhau nad ydym yn derbyn ceisiadau lluosog ar gyfer yr un prosiect, rydym ond yn derbyn ceisiadau gan y sefydliad arweiniol yn eich consortiwm. Os ydych chi'n ymgeisio fel consortiwm o bartneriaid, y sefydliad arweiniol yw'r un fydd yn gyfrifol am lofnodi'r cytundeb â YEF ac am adrodd i ni yn rheolaidd.

   Os ydych chi'n ymgeisio fel rhan o gonsortiwm, ond nad ydych yn sefydliad arweiniol, rhowch y gorau i gwblhau'r cais hwn a chysylltwch â'ch arweinydd, a fydd yn cyflwyno ar eich rhan.

   Beth sydd bwysicaf yw eich bod yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos pam y byddai'ch partneriaeth yn darparu prosiect sy'n atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais yn effeithiol.

4. **Ydych chi'n credu y gallai'ch gwaith leihau'r tebygolrwydd o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn trais?**

   Gorchwyl y Gronfa Gwaddol Ieuenctid yw atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais. Gyda'r cylch hwn o gyllid, rydym yn anelu at ddysgu pa fath o berthynas Oedolyn Dibynadwy sy'n gallu atal rhai 10 i 18 oed rhag cymryd rhan mewn trais. Mae'n hollbwysig eich bod yn credu y bydd eich prosiect yn ein helpu i gyflawni'r nod eithaf hwn.

5. **Fydd y rhan fwyaf o'ch darpariaeth a amlinellir yn eich cynnig yn gweithio â phlant a phobl ifanc (10-18 oed yn bennaf) sy'n:**

   - Aelodau o grwpiau, y cyfeirir atynt yn aml fel gangiau, sy'n cymryd rhan mewn troseddu, trais a masnachu mewn pobl
   - Wedi'u heffeithio gan drais difrifol, camfanteisio troseddol neu rywiol (fel troseddwyr a/neu ddioddefwyr). A/NEU
   - Rhan o deuluoedd â hanes o ymddygiad niweidiol/heriol a chylchoedd ailadroddol o gamdriniaeth, trawma ac esgeulustod.

Mae gorchwyl y Gronfa Gwaddol Ieuenctid wedi'i ganoli o gwmpas plant a phobl ifanc. Yn y cylch grant hwn, rydym yn anelu at ddysgu a yw perthynas oedolyn dibynadwy yn galluogi canlyniadau gwell i bobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio eisoes neu sy'n cymryd rhan mewn troseddu a thrais.

Mae mwyafrif mawr (mwy nac 80%) o'r plant rydych chi'n gweithio â nhw yn gorfod bod o fewn yr amrediadau oed rydym wedi'u hamlinellu. Fel arall, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer cyllid yn y cylch hwn.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn prosiectau sy'n cynorthwyo pobl ifanc sydd wedi'u gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol, neu'n cael trafferth i gyrchu gwasanaethau prif lif.

6. **Fydd y prosiect rydych chi'n ei ddisgrifio yn eich cynnig yn cynnwys dynodi naill ai fentor neu weithiwr allweddol/achos i bob plentyn neu unigolyn ifanc?**

   Rydym yn gwybod bod llawer o fathau gwahanol o berthnasoedd oedolion dibynadwy. Er mwyn cael y cyfle gorau o ddarparu tystiolaeth ddefnyddiol o'r hyn sy'n gweithio, rydym yn canolbwyntio'r cylch grant hwn ar brosiectau sy'n cynnwys perthynas mentora neu weithiwr allweddol/achos. Gall prosiectau hefyd gynnwys cydrannau eraill, er enghraifft therapi, cymorth a chamddefnyddio sylweddau neu reoli dicter. Gweler rhagor o wybodaeth yn yr adran 'Beth rydym yn bwriadu ei gyllido' o'r cyfarwyddyd hwn.

   Oherwydd y prosiectau rydym yn eu cyllido a'u harfarnu eisoes, nid ydym yn bwriadu cyllido prosiectau yn y cylch grant hwn sy'n gweithio i ddatblygu cartrefi cefnogol nac sy'n canolbwyntio ar wella presenoldeb pobl ifanc yn yr ysgol. Nid ydym chwaith yn canolbwyntio'r cylch grant hwn ar gynorthwyo pobl ifanc sy'n dangos arwyddion cynnar o fod mewn perygl o gymryd rhan mewn troseddu a thrais (hynny yw, prosiectau cymorth cynnar neu ataliol).

7. **A yw'r prosiect rydych yn ei ddisgrifio yn wahanol i'r gofal statudol mae pobl ifanc yn ei dderbyn bob amser?**

   Er mwyn i ni allu arfarnu'ch prosiect mae angen iddo fod yn wahanol i'r hyn mae plant a phobl ifanc yn ei dderbyn bod amser fel rhan o ddyletswyddau statudol. Mae hyn oherwydd bod angen i ni allu cymharu effaith eich prosiect â'r cymorth mae'r holl bobl ifanc yn ei dderbyn. Byddwn yn sefydlu 'grŵp rheoli' i wneud hyn.

   Er enghraifft, mae'r holl unigolion ifanc sydd mewn lleoliad gofal maeth hefyd yn cael eu dynodi â gweithiwr cymdeithasol. Er y gallai gweithiwr cymdeithasol fod yn enghraifft o weithiwr allweddol, ni fyddem yn gallu cyllido Awdurdod Lleol i dalu gweithwyr cymdeithasol i barhau â'u gwaith arferol o gynorthwyo plant mewn gofal maeth.

8. **Mae pob prosiect a gyllidir gan YEF yn cael ei arfarnu'n annibynnol i'n galluogi ni i ddysgu mwy am yr hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio i leihau trais ieuenctid. Bydd angen i chi weithio â phartner arfarnu trwy gydol y prosiect hwn. Darllenwch adran 4 o'n prosbectws a gwyliwch ein fideo ar arfarnu.**

   - Ydych chi wedi darllen yr wybodaeth gynorthwyol a gwylio'n fideo?
   - Ydych chi wedi rhannu'r wybodaeth hon â gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol yn eich sefydliad ac â'ch partneriaid prosiect arfaethedig?
   - A yw eich sefydliad ac unrhyw bartneriaid prosiect yn cytuno i weithio ag arfarnwr annibynnol?

- Os ydych chi'n dewis ydw byddwn yn rhagdybio ar gyfer gweddill y broses ymgeisio y byddwch yn cydymffurfio â'n hymagwedd, mae hyn yn rhywbeth nad yw YEF yn gallu cyfaddawdu arno felly sicrhewch fod aelodau perthnasol eich sefydliad wedi darllen, deall a chytuno i'n hymagwedd

Mae bod yn bartner YEF yn ymrwymiad mawr; er mwyn ein helpu i gyflawni'n gorchwyl i ganfod beth sy'n gweithio, bydd angen i chi weithio'n agos â'ch arfarnwr. Os nad ydych chi'n fodlon i gael eich arfarnu'n annibynnol, nid yw ein cyllid yn gywir ar eich cyfer chi.

Sicrhewch eich bod wedi darllen yr holl adnoddau rydym wedi'u rhannu yn y ffurflen gais, er mwyn i chi wybod beth mae arfarniad annibynnol yn ei gynnwys. Am wybodaeth hyd yn oed yn fanylach gallwch ganfod adnoddau wedi'u hanelu at ein partneriaid arfarnu ar ein gwefan.

9. **Mae'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid yn bodoli i ganfod beth sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais. Rydym am i bobl ifanc gael y cymorth gorau posibl ar yr adeg gywir. Mae hyn yn golygu bod angen i ni gynnal y mathau cadarnaf o ymchwil. Y ffordd honno, bydd mwy o bobl ifanc yn cael y gwasanaethau wedi'u harwain gan dystiolaeth maen nhw'n eu haeddu. Mae hyn yn golygu y byddwn yn rhedeg arfarniadau sydd â 'grŵp rheoli' o bobl ifanc sydd ddim yn cymryd rhan mewn gweithgaredd. Mewn llawer o achosion, mae'n angenrheidiol i ddynodi pobl ifanc i'r 'grŵp rheoli' hwn ar hap fel arall mae'n amhosibl i wybod os yw rhywbeth yn gweithio'n wirioneddol. Dewiswch 'ie' i gadarnhau eich bod yn deall mai dyma sut rydym yn gweithio neu 'na' os nad ydych am ein helpu ni i wneud hyn.**

   Darllenwch fwy am y rhesymau rydym wedi ymrwymo i arfarniadau trwyadl sy'n cynnwys grŵp rheoli yn adran 4 o'n prosbectws. Mae eisiau cyllido arfarniadau cadarn arnom, fel treialon rheoli ar hap. Yn yr arfarniadau hyn, mae un grŵp yn cymryd rhan mewn prosiect tra nad yw'r grŵp arall yn gwneud. Trwy edrych ar y ddau grŵp cyn ac ar ôl i chi weithio i gynorthwyo pobl ifanc, rydym yn gallu gweld yn glir beth yw effaith eich prosiect wedi bod. Os nad ydych chi'n fodlon i gymryd rhan mewn arfarniad sy'n cynnwys grŵp rheoli ar hap, nid yw ein cyllid yn gywir i chi.

10. **Ynglŷn â'n harchif data arfarnu - rydym am osgoi hyrwyddo gwaith sy'n edrych yn wych ond sydd ddim yn gwneud gwahaniaeth tymor hir. Er mwyn osgoi hyn, mae'n ofyniad i brosiectau wedi'u cyllido gan YEF gytuno ar ein hymagwedd at gasglu a storio data i alluogi dilyniant tymor hir trwy ein harchif data. Mae'r archif data yn golygu y byddwn yn gallu dysgu mwy am beth sydd a beth sydd ddim yn gweithio i leihau trais ieuenctid dros y tymor hir. Ni fyddwch yn gallu symud ymlaen â'ch cyllid oni bai eich bod chi, eich sefydliad(au) a lle'n briodol partneriaid prosiect wedi darllen, deall a chytuno â'n harchif ddata. Darllenwch yr wybodaeth ar ein gwefan a gwyliwch ein hesboniwr fideo**

- Ydych chi wedi darllen yr wybodaeth gynorthwyol a gwylio'n fideo?
- Ydych chi wedi rhannu'r wybodaeth hon a phrif wneuthurwyr penderfyniadau a / neu arweinyddion data perthnasol yn eich sefydliad ac â'ch partneriaid prosiect arfaethedig?
- A yw eich sefydliad a lle'n briodol partneriaid prosiect yn cytuno i'r archif ddata?
- Os ydych chi'n dewis ydi byddwn yn rhagdybio am weddill y broses ymgeisio y byddwch yn cydymffurfio â'n hymagwedd, mae hyn yn rhywbeth nad yw YEF yn gallu cyfaddawdu arno felly sicrhewch fod aelodau perthnasol eich sefydliad wedi darllen, deall a chytuno i'r Archif Ddata.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau cysylltwch â grants@youthendowmentfund.org.uk.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu deall yr hyn sy'n gweithio, mae angen i ni gasglu a storio data fel y gallwn ddilyn cynnydd plant a phobl ifanc i'r dyfodol sydd wedi cael eu cynorthwyo gan ein prosiectau. I ddysgu mwy am y data rydym yn eu casglu, sut y byddwn yn eu storio a sut y byddwn yn eu cadw'n ddiogel, sicrhewch eich bod wedi darllen a gwylio'r holl adnoddau ar ein gwefan.

Mae'r holl ddata rydym yn eu casglu yn cael eu storio'n ddiogel fel na fydd hunaniaeth plentyn neu unigolyn ifanc yn gallu cael ei holrhain byth gan ymchwilwyr sy'n cyrchu'r data yn y dyfodol. Os nad ydych chi'n fodlon nac yn gallu casglu data personol y cyfranogwyr yn eich prosiect, nid yw'n cyllid yn gywir i chi.

11. **Mae gennym ddiddordeb mewn archwilio'r effeithiau y gallai prosiectau eu cael ar ganlyniadau plant a phobl ifanc. I wneud hyn mae angen arnom i chi naill ai:**

- Wybod pa ganlyniadau plant ac unigolion ifanc mae'ch prosiect yn canolbwyntio arnynt.
- Bod yn fodlon i weithio â ni i ddysgu pa ganlyniadau plant ac unigolion ifanc y gallai'ch prosiect ganolbwyntio arnynt.

Cadarnhewch fod hyn yn rhywbeth rydych chi'n fodlon i'w wneud ac yn gallu ei wneud

Canlyniadau yw'r newidiadau y byddech yn gobeithio eu gwneud i'r plant a phobl ifanc rydych yn gweithio â nhw. Am restr lawn o'r canlyniadau y mae gennym ddiddordeb ynddynt yn y cylch grant hwn, gweler prif ganlyniadau o ddiddordeb ar gyfer ein cylch grant Oedolyn dibynadwy yn y cyfarwyddyd hwn.

I sicrhau ein bod yn casglu tystiolaeth o ansawdd uchel, mae angen arnom i chi fesur pethau sy'n ein helpu i ddeall a yw eich prosiect yn helpu plant yn y ffyrdd y byddech yn eu disgwyl. Er enghraifft, gallem ofyn i chi fesur a oes gwelliannau wedi bod mewn ymddygiad plant neu ostyngiad mewn ymddygiadau troseddol. Mae hynny oherwydd y bydd yn ein helpu i ddysgu os yw cymryd rhan yn eich prosiect yn gwneud gwahaniaeth i'r plant a phobl ifanc rydych chi'n gweithio â nhw dros amser.

Mae'n bwysig hefyd i ddweud ei bod hi'n bosibl, os ydych chi'n mynd trwy'r cam cydgynllunio â'ch partner o arfarnwr, y gallai fod newidiadau i'r canlyniadau roeddech chi'n bwriadu eu mesur.

Os nad ydych chi'n fodlon i weithio â'ch arfarnwr i'n helpu ni i fesur effaith eich prosiect, nid yw'n cyllid yn gywir i chi.

12. **Ydych chi wedi darllen y dogfennau cyfarwyddyd YEF atodol?**

Mae'n dogfennau cyfarwyddyd yma i'ch helpu i wneud y penderfyniad gorau ynglŷn ag a yw cyllid gan y Gronfa Gwaddol Ieuenctid yn gywir i chi.

Ein nod yw sicrhau eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl fel partner YEF. Mae hynny'n golygu y bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi darllen ein diweddariad prosbectws, gwybodaeth ar ein harfarniadau a'n cyfarwyddyd ar ein harchif ddata.

## Cam dau: cais llawn

Mae gan ein cais llawn y saith adran ganlynol:

1. **Eich sefydliad**

Mae eisiau gwybod arnom am eich rôl wrth i'r bobl gyflwyno'r cais ar ran eich sefydliad, y math o sefydliad rydych chi'n gweithio iddo, os ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth a phwy yw'r partneriaid hynny. Mae'r adran hon er gwybodaeth i ni yn unig ac nid yw'n cael ei defnyddio i asesu cryfder eich cais.

2. **Gwella amrywiaeth y sefydliadau rydym yn eu cyllido**

Rydym wedi ymrwymo i fod yn gyllidwr amrywiol a chynhwysol. Rydym yn credu bod amrywiaeth yn gyrru arloesedd, yn cynyddu amrywiaeth meddwl a phrofiad, ac mae'n ein helpu i gynrychioli a gwasanaethu'r bobl ifanc rydym yn ceisio'u cynorthwyo orau.

Mae'r adran hon yn gofyn i chi rannu gwybodaeth am faint eich sefydliad, amrywiaeth eich tîm arweinyddiaeth, oed a rhyw y plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gobeithio gweithio â nhw a lle bydd eich gweithgaredd yn digwydd.

Yn y cylch grant hwn rydym wedi ymrwymo i gyllido o leiaf un prosiect sy'n cael ei arwain gan arweinyddion Du, Asiaidd a lleiafrifol hiliol eraill. Bydd gennym ddiddordeb arbennig hefyd mewn prosiectau sy'n cynorthwyo pobl ifanc o gefndiroedd wedi'u hymylu.

3. **Deall y gweithgaredd**

Yn yr adran hon rydym yn anelu at ddeall manylion eich prosiect. Rydym am wybod am y gweithgareddau rydych chi'n cynllunio i'w rhedeg, pa mor hir fydd y gweithgareddau hynny'n cymryd, lle rydych chi'n cynllunio i'w rhedeg ac, yn hollbwysig, pa ganlyniadau rydych chi'n gobeithio eu cyflawni.

Rydym yn chwilio'n neilltuol am geisiadau sy'n disgrifio'r profiad a'r llinell amser o safbwynt y plentyn yn eglur iawn. Beth maen nhw'n ei brofi ac ym mha drefn? Mae hyn yn debygol o fod yn haws i'w gyflawni os yw'ch cais yn disgrifio taith unigol i'r rhan fwyaf o blant neu bobl ifanc (er enghraifft, mae'r holl bobl ifanc yn cymryd rhan mewn sesiwn fentora wythnosol, wedi'i darparu gan weithiwr proffesiynol hyfforddedig, dros 18 mis). Yn y cylch grant hwn mae gennym lai o ddiddordeb mewn ceisiadau am gyllid sydd ddim yn ymyriad uniongyrchol ag unigolyn ifanc (er enghraifft, newidiadau i'r system neu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol).

4. **Eich tystiolaeth a'ch hanes ar hyn o bryd**

Yn yr adran hon, rydym yn ceisio deall pa mor debygol mae'ch prosiect o lwyddo a pha mor debygol yw hi y bydd eich gweithgaredd yn arwain at ei newid arfaethedig. Yn ein cylchoedd grant ar thema, byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau gan brosiectau sy'n darparu eisoes, yn gallu dangos i ni rywfaint o'r dystiolaeth bresennol eu bod yn gweithio a'u bod yn barod am arfarniad cadarn (fel treial rheoli ar hap). Nid yw hyn yn golygu na fyddwn yn ystyried ceisiadau ar gam cynharach o arfarnu. Fodd bynnag, mae'n bwysig i ddweud bod eisiau gweld rhywfaint o dystiolaeth arnom y byddai'r rhaglenni cynnar hyn yn effeithiol, boed hynny'n ddamcaniaeth newid (sy'n disgrifio'ch nodau tymor hir ac yn mapio yn ôl i esbonio sut fydd eich ymyriad yn eich cael chi yno), tystiolaeth academaidd neu dystiolaeth o sectorau eraill.

Ym mhob achos, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau a fyddai'n barod am dreial cadarn o fewn dwy flynedd.

5 **Risg**

Mae pob prosiect yn dod â risgiau. Yn yr adran hon mae eisiau sicrhau arnom eich bod wedi meddwl yn glir trwy'r risgiau i'ch darpariaeth a sut y gallwch eu lliniaru.

Byddwn yn gofyn i chi am risgiau'n ymwneud â chyrraedd y bobl ifanc rydych chi'n bwriadu gweithio â nhw, risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio yn eich lleoliad, risgiau darparu a risgiau rheoli prosiect. Byddwn hefyd am i chi ddeall eich profiad yn darparu'r math hwn o weithgaredd yn y gorffennol a phrofiad yn gweithio â'r grŵp o blant rydych chi'n ceisio eu cyrraedd.

6 **Y bobl ifanc y byddwch yn gweithio â nhw**

Yn yr adran hon rydym yn ceisio datblygu dealltwriaeth ddofn o'r math o blant neu bobl ifanc rydych yn gobeithio gweithio â nhw a'r nifer ohonynt rydych yn cynllunio gweithio â nhw. Mae'n bwysig ein bod yn cyllido sefydliadau sy'n barod am arfarniad trwyadl o'u gwaith neu fydd yn barod am hynny o fewn dwy flynedd. Am y rheswm hwnnw, rydym yn edrych yn ofalus ar y nifer o blant rydych chi'n meddwl y gallwch eu cyrraedd, oherwydd ei bod yn bwysig fod maint sampl digon mawr ar gyfer y math o arfarniadau sydd eisiau eu rhedeg arnom.

7 **Cyllideb**

Yn yr adran hon, rydym yn gofyn i chi ddarparu crynodeb o'r hyn rydych chi'n bwriadu ei wario ar y prosiect hwn. Ar yr adeg hon, rydym am wybod faint rydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ei wario ar lefel uchel, fesul blwyddyn, i ddarparu'ch prosiect fel y cynllunnir (yn cynnwys costau prosiect, costau gorbenion, costau staff a chostau cyfarpar). Sylwch, nid oes angen i chi gynnwys costau'r arfarnu yn eich cyllideb. Mae arfarnwyr yn cyflwyno'u cyllidebau eu hunain.

Am ragor o fanylion ar beth yn union rydym yn chwilio amdano mewn ymateb i bob cwestiwn yn yr adrannau uchod, gweler yr adran nesaf.

## Cyfarwyddyd cam wrth gam i ateb cwestiynau yn y cais llawn

### **Deall y gweithgaredd** (gan ddechrau o gwestiwn 25 yn y ffurflen gais)

**25. Os caiff ei gyllido, pa wahaniaeth ydych chi'n meddwl y bydd eich prosiect yn ei wneud? Beth ydych chi'n gobeithio y bydd eich prosiect yn ei gyflawni? [Uchafswm 250 gair]**

Mae'n bwysig i wahaniaethu rhwng y gwahaniaethau (canlyniadau) mae prosiect yn anelu i'w wneud i blant a phobl ifanc a'r gweithgareddau a gwasanaethau mae'n eu darparu. Felly, os yw'ch rhaglen yn cynnwys mentora ar gyfer unigolyn ifanc, nid y gwahaniaeth neu ganlyniad yw'r sesiwn fentora ei hun, ond y newidiadau fydd yn digwydd ym mywyd yr unigolyn ifanc o ganlyniad. Er enghraifft, gallai hyn fod yn hunan-barch gwell neu ymosodedd ac anawsterau ymddygiadol gostyngol.

Bydd angen i chi ddweud wrthym am y gwahaniaethau pwysicaf rydych chi'n meddwl y bydd eich prosiect yn eu gwneud fydd yn gwella bywydau plant. Os bydd grant yn cael ei dyfarnu i chi, gofynnir i chi adrodd yn ôl ar y rhain yn fanwl.

- Ar gyfer pob un o'ch canlyniadau, byddwch yn gryno ac esboniwch newid unigol, arwyddocaol.

Gallwch esbonio mwy nac un, ond peidiwch â darparu rhestr o ganlyniadau neu newidiadau yn unig.

- Bydd y gwahaniaeth yn digwydd yn yr amser rydych chi mewn cysylltiad â'r plentyn rydych yn ei gynorthwyo. Gall fod yn newid bach neu'n newid parhaol.

26. **Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Isod mae'n rhestr ni o brif ganlyniadau plant ar gyfer y cylch grant hwn. Os ydych chi'n adnabod y prif ganlyniadau plant mae'ch prosiect yn ceisio dylanwadu arnynt, dewiswch y ddau ganlyniad uchaf.**

- Lleihau problemau ymddygiadol
- Lleihau ymosodedd
- Lleihau troseddu heb fod yn dreisgar
- Lleihau troseddu treisgar
- Lleihau cysylltiad â chymheiriaid sy'n droseddwyr
- Cynorthwyo ymddygiad cadarnhaol cymdeithasol-fuddiol
- Lleihau dioddefaint o droseddu
- Lleihau defnydd  cyffuriau ac alcohol
- Cynorthwyo gallu i ddatrys gwrthdrawiadau
- Cynorthwyo adeiladu a chynnal perthnasoedd
- Cynorthwyo perthnasoedd ystyrlon
- Cynorthwyo hapusrwydd a llesiant
- Cynorthwyo gosod  a chyrraedd nodau ystyrlon
- Cynorthwyo rheoleiddio a rheoli emosiynau
- Cynorthwyo Hunan-barch
- Lleihau  Gorbryder a Nerfusrwydd
- Gwella hwyl isel/ iselder
- Lleihau tebygolrwydd o gamfanteisio troseddol arnoch
- Lleihau tebygolrwydd o brofi camfanteisio rhywiol
- Lleihau triniaeth wael neu gamdriniaeth o blant
- Lleihau tebygolrwydd o brofi digwyddiadau trawmatig posibl
- Lleihau profiadau neu ganlyniadau negyddol hiliaeth a gwahaniaethu
- Cynorthwyo gwasanaethau cydlynedig

- Lleihau problemau tai
- Cynorthwyo cyfleoedd ar gyfer addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
- Cynorthwyo mynediad at weithgareddau cadarnhaol
- Arall
- Ddim yn siwr

Fformat Ateb - Blwch Ticio / cwymplen - 2 opsiwn yn unig

Canlyniadau yw'r newidiadau y byddech yn gobeithio eu gwneud i'r plant a phobl ifanc rydych yn gweithio â nhw. Dewiswch y ddau newid mwyaf perthnasol rydych chi'n meddwl y bydd eich prosiect yn eu gwneud..

27. **Yn y cylch hwn, mae gennym ddiddordeb mewn cyllido a dysgu am ymyriadau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc y mae naill ai mentor neu weithiwr allweddol/achos yn cael eu dynodi iddynt. Dewiswch pa fath o berthynas oedolyn dibynadwy mae unigolyn ifanc yn gweithio â hi fel rhan o'ch prosiect arfaethedig.**

- Mentor
- Mentor a chydrannau eraill
- Gweithiwr allweddol/Gweithiwr achos
- Gweithiwr allweddol/Gweithiwr achos a chydrannau eraill
- Mentor yn ogystal â gweithiwr Allweddol/Achos
- Mentor yn ogystal â gweithiwr Allweddol/Achos a chydrannau eraill

Mae mentora yn paru plentyn neu unigolyn ifanc â mentor ac yn eu hannog i gyfarfod yn rheolaidd. Mae'n anelu at helpu'r plentyn i ffurfio perthynas dda â model rôl cadarnhaol. Gallai'r berthynas hon helpu'r plentyn i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, ffurfio perthnasoedd adeiladol ag eraill, a datblygu ymddygiadau a dyheadau cadarnhaol. Yn y cylch grant hwn mae gennym ddiddordeb mewn prosiectau â mentoriaid o oedolion yn unig, ac nid mentoriaid cymheiriaid neu aelodau o'r teulu.

Mae gweithiwr allweddol, neu weithiwr achos, yn ddull o ddarparu gwasanaeth sy'n cynnwys unigolyn sy'n gweithio mewn rôl gyfarwyddo â phlant. Mae'n gallu cynnwys gweithwyr YOT, gweithwyr cymdeithasol cymwys neu ymarferwyr gwaith ieuenctid eraill. Mae'r gweithiwr yn gweithredu fel pwynt cyswllt unigol, yn helpu i gyd-drefnu mathau gwahanol o ofal a chymorth i'r plant o fewn yn ogystal ag ar draws systemau, er enghraifft addysg, gwasanaethau cymdeithasol, adnoddau ariannol, hamdden, cludiant. Prif bwrpas rôl y gweithiwr yw darparu cymorth, adnoddau a gwybodaeth i'r plentyn wedi'u teilwra i ateb ei anghenion unigol .

Gallai cydrannau eraill gynnwys: gwaith therapiwtig; gweithgareddau hamdden cadarnhaol; cyfeirio at wasanaethau eraill, gan gynnwys eiriolaeth neu gymorth mewnfudo; addysg, cyflogaeth neu gyfleoedd hyfforddi; cymorth tai; cymorth cyllid a dyled; neu gymorth cyffuriau ac alcohol.

28. **Disgrifiwch y gweithgaredd mae'ch tîm prosiect a phartneriaid yn bwriadu eu darparu. Beth yw profiad y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn eich prosiect? Sut ydych chi'n sicrhau**

2. Mae'n diffiniad o weithwyr allweddol/achos wedi cael ei addasu o waith CanChild

**bod y gweithgareddau'n hygyrch ac yn bleserus i bobl ifanc amrywiol? Beth yw llinell amser y gweithgareddau o'u safbwynt nhw? (Uchafswm 500 gair)**

Rydym yn gofyn y cwestiwn hwn i asesu a yw'r hyn rydych yn ei gynllunio yn debygol o gyflawni'r canlyniadau sydd gennych dan sylw, felly disgrifiwch mor glir â phosibl.

Mae hon yn rhan bwysig iawn o'ch cais.

Rhowch ddisgrifiad i ni o bob gweithgaredd rydych chi'n cynllunio i'w wneud, pwy sy'n darparu'r gweithgareddau hynny, pwy sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau hynny, am ba hyd y bydd pob gweithgaredd yn digwydd a pha mor aml y bydd plentyn neu unigolyn ifanc yn gwneud y gweithgaredd.

Cwestiynau y dylech feddwl am ateb yn eich hymateb:

- Pa weithgareddau penodol fydd plentyn neu unigolyn ifanc yn eu derbyn?
- Pwy sy'n darparu'ch gweithgareddau? Am ba hyd? Ble maen nhw'n digwydd?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod y gweithgareddau'n hygyrch ac yn bleserus i bobl ifanc amrywiol?
- Oes cyfnod o amser wedi'i ddynodi i adeiladu'r berthynas cyn i unrhyw weithgareddau ffurfiol ddechrau?

Er bod camau o fewn prosiect yn debygol o amrywio fesul sefydliad, gallai'ch cais esbonio:

**Cam un:** Sut mae plant a phobl ifanc yn cael eu recriwtio i'ch prosiect (er enghraifft, trwy atgyfeiriadau o ysgolion lleol, neu drwy waith ieuenctid ar wahân)

**Cam dau:** Esbonio cam cyntaf eich gweithgareddau (er enghraifft, cyfarfod â phobl ifanc mewn lle diogel dros gyfnod o chwech wythnos, i adeiladu perthnasoedd ymddiriedol. Esboniwch hefyd pam bod hyn yn bwysig).

**Cam tri:** Esboniwch gam(au) nesaf eich gweithgareddau (er enghraifft, rhaglen fentora wedi'i strwythuro yn canolbwyntio ar 8 prif faes dysgu dros gyfnod o 12 mis). Cysylltwch yn ôl â beth rydych yn gobeithio y bydd eich prosiect yn ei gyflawni a sicrhewch eich bod yn cyfeirnodi'ch deunydd ffynhonnell, a allai fod eich data eich hun, cyn arfarniadau neu lenyddiaeth academaidd ehangach (er enghraifft, mae'r sesiynau hyn wedi cael eu dangos yn gyffredin i leihau ymosodedd ymhlith plant a phobl ifanc, sy'n lleihau'r cyfle iddynt gymryd rhan mewn trais yn y dyfodol.)

29. **Dywedwch wrthym beth sy'n digwydd ar ddiwedd eich prosiect. Pan mae plentyn neu berson ifanc wedi dod i ddiwedd gweithgareddau'r prosiect sut ydych chi'n eu trosglwyddo allan o'ch prosiect? Pa gymorth mae plant a phobl ifanc yn ei gael ar ôl iddynt gwblhau'r prosiect? (Uchafswm 250 gair)**

    Er enghraifft, fyddech chi'n cyfeirio plentyn neu unigolyn ifanc at wasanaethau cymorth eraill? Gan bwy mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu rhedeg? Fyddwch chi'n gwirio cymhwyster plentyn neu unigolyn ifanc ar gyfer y gwasanaethau hynny?

    Byddwch mor benodol â phosibl.

30. **Ym mha leoliad mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu'n bennaf?**

    Bydd rhestr o leoliadau yn cael eu rhoi i chi lle gallai'ch gweithgaredd gael ei ddarparu. Rydych chi'n rhydd i ddewis mwy nac un.

**31. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw dewis y lleoliad yn rhoi rhai pobl ifanc o dan anfantais? (Uchafswm 250 gair)**

Esboniwch sut rydych chi'n sicrhau bod y lleoliad(au) yn gynhwysol a hygyrch i'r holl bobl ifanc. Er enghraifft, sut ydych chi'n sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad?

**32. Ar gyfartaledd, am faint ydych chi'n gweithio â phlant /pobl ifanc i ddarparu'r gweithgaredd hwn? Cofnodwch y nifer o fisoedd. Beth yw'r rheswm am hyd y darparu? [Uchafswm 150 gair]**

Ar gyfer y cylch grant hwn rydym yn disgwyl bod angen i weithgareddau prosiect barhau isafswm o 5 mis ac uchafswm o 24 mis. Mae hyn oherwydd ein bod yn meddwl bod sefydlu perthynas ymddiriedol yn cymryd amser.

Atebwch hyn o bersbectif y plentyn sy'n ymgysylltu â'ch gweithgaredd, nid y swm o amser mae'n ei gymryd i wneud y gweithgaredd. Er enghraifft, os yw gweithiwr allweddol yn rhedeg prosiect am gyfnod o 15 mis (mae'ch staff yn ei wneud am y cyfnod hwn o amser), ond bydd unigolyn ifanc unigol yn cymryd rhan yn y prosiect am 6 mis, cofnodwch 6 mis.

**33. Beth sy'n cael ei ddarparu fel arfer i bobl ifanc sydd ddim yn cael eu cyfeirio at eich prosiect? hynny yw, beth yw 'cymorth fel arfer'? (Uchafswm 250 gair)**

Os nad yw plentyn neu unigolyn ifanc yn derbyn eich prosiect oherwydd nad oes gennych y capasiti, nid ydynt yn cael eu cyfeirio atoch, neu maen nhw'n dewis peidio ag ymgysylltu, pa gymorth maen nhw'n ei dderbyn yn hytrach? Efallai nad ydych yn gwybod yn union beth y byddent yn ei dderbyn ond darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl. Er enghraifft, gallai fod gan y rhan fwyaf o'r plant a phobl ifanc rydych chi'n gweithio â nhw weithwyr cymdeithasol, felly gallai 'cymorth fel arfer' fod yn gymorth parhaol gan eu gweithiwr cymdeithasol.

## Eich tystiolaeth a'ch hanes ar hyn o bryd

Rydych wedi dweud wrthym yn awr pa wahaniaeth mae'ch gweithgaredd yn anelu at wneud i blant a phobl ifanc a beth yw eich gweithgaredd.

**34. Pa mor hyderus ydych chi y bydd eich gweithgaredd yn arwain at y newid hwn?**

**Beth sy'n gwneud i chi ddewis yr opsiwn hwn? Cynhwyswch unrhyw esboniad o sut mae'ch gweithgaredd yn achosi'r newid hwn. [Uchafswm 500 gair]**

Cynhwyswch ddolen/cyfeirnod i unrhyw dystiolaeth gefnogol a ddyfynnir - osgowch ddolenni i fideos neu amlgyfrwng gan na fyddwn yn gallu asesu'r rhain fel rhan o'r cais.

Anelwch at roi adlewyrchiad gonest yn seiliedig ar yr hyn sy'n hysbys yn barod am effaith eich prosiect.

Gofynnir i chi ddewis naill ai uchel, canolig neu isel i ddangos pa mor hyderus ydych chi y bydd eich gweithgaredd yn arwain at newid. Gofynnir i chi wedyn i lenwi blwch testun rhydd gan ddarparu esboniad dros pam y gwnaethoch roi y cyfraddiad a wnaethoch.

**35. Os hoffech chi gynnwys unrhyw wybodaeth gefnogol a / neu arfarniadau sydd ar gael yn gyhoeddus o'ch prosiect cynhwyswch nhw yma ynghyd â dolen/cyfeirnod.**

Os oes gennych Ddamcaniaeth newid a / neu Fodel Rhesymeg yr hoffech eu rhannu â ni, lanlwythwch y ddogfennaeth yma.

Sicrhewch fod hyn yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth yn hytrach na dolenni i fideos.

Os yw'ch prosiect wedi mynd trwy arfarniad annibynnol o'r blaen a bod adroddiad ar gael, lanlwythwch ef.

Er nad yw hyn yn ofyniad, bydd yn cryfhau eich cynnig.

**36. Dywedwch wrthym am y math o blant a phobl ifanc rydych chi'n bwriadu gweithio â nhw. [Uchafswm 250 gair]**

Sylwch yn y cylch grant hwn fod gennym ddiddordeb mewn gweithio â phlant a phobl ifanc sy'n

- Aelodau o grwpiau, y cyfeirir atynt yn aml fel gangiau, sy'n cymryd rhan mewn troseddu, trais a masnachu mewn pobl.
- Cael eu heffeithio gan drais difrifol, camfanteisio troseddol neu rywiol (fel gweithredwyr a/neu ddioddefwyr).
- Rhan o deuluoedd â hanesion o ymddygiad niweidiol/heriol a chylchoedd ailadroddol o gamdriniaeth, trawma ac esgeulustod

Bydd gwybod yn union pwy rydych chi'n bwriadu eu cyrraedd yn ein helpu i ddeall os bydd eich prosiect yn gweithio â'r plant a phobl ifanc y mae gennym y diddordeb mwyaf i'w cynorthwyo. Byddwch mor benodol a manwl â phosibl.

Cwestiynau y dylech feddwl am ateb yn eich hymateb:

- Ydych chi'n gallu esbonio'n glir pwy fydd yn elwa o'ch prosiect? Beth yw'r heriau maen nhw'n eu hwynebu yn eu bywydau?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau y bydd plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan yn eich prosiect? Er enghraifft, fyddwch chi'n cynnig darpariaeth y tu allan i oriau ysgol?

**37. Sut mae plant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio neu eu recriwtio i'ch prosiect? Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod plant a phobl ifanc o bob cefndir yn cael cyfle cyfartal o gael eu cyfeirio neu eu recriwtio i'ch prosiect? Os oes gennych lwybrau cyfeirio neu recriwtio lluosog dywedwch wrthym o ble bydd y rhan fwyaf o'r plant a phobl ifanc yn dod. [Uchafswm 250 gair]**

Byddwch yn siŵr o esbonio'n fanwl sut y byddwch yn recriwtio pobl ifanc i'ch prosiect. Efallai bod gennych berthnasoedd â sefydliadau sy'n atgyfeirio pobl ifanc at eich prosiect eisoes. Neu efallai eich bod yn recriwtio pobl ifanc trwy waith ieuenctid ar wahân.

Sicrhewch eich bod yn esbonio sut rydych chi'n cael atgyfeiriadau gan grwpiau sy'n llai tebygol o gael eu hatgyfeirio, er enghraifft merched a menywod ifanc. Esboniwch sut rydych chi'n sicrhau nad oes tuedd yn yr atgyfeiriadau rydych yn eu derbyn.

**38. Beth yw'r angen neu'r galw am eich prosiect? Pa dystiolaeth sydd ar gyfer hyn? [Uchafswm 250 gair]**

Mae eisiau gwybod arnom pam rydych chi'n meddwl bod angen y prosiect rydych chi'n ei gynnig ar y grŵp penodol o blant a phobl ifanc rydych chi am weithio â nhw. Rhannwch unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'ch rhesymu.

Er enghraifft, oes mater penodol gyfa chamddefnydd sylweddau yn y maes/meysydd rydych chi'n bwriadu gweithio ynddynt? Oes ystadegau gan ddarparwyr gofal iechyd neu awdurdod lleol sy'n

dangos graddfa'r angen? Oes gennych chi restr aros ar gyfer eich prosiect ar hyn o bryd?

### Section 5: Risg

**39. Yn aml mae sefydliadau'n cael trafferth i gyrraedd y plant a'r bobl ifanc maen nhw am weithio â nhw. Sut fyddech chi'n graddio'r risg na fyddwch chi'n gallu cyrraedd y math o blant a/neu bobl ifanc yn llwyddiannus yr ydym yn ceisio'u cyrraedd? Beth sy'n gwneud i chi ddewis yr opsiwn hwn? [Uchafswm 500 gair]**

Helpwch ni i ddeall sut y byddwch yn cyrraedd y plant a phobl ifanc hyn a sut y byddwch yn osgoi mathau eraill o blant a phobl ifanc sy'n cyrchu'r gweithgaredd yn hytrach.

Rydym yn gofyn yn benodol i chi ymateb i'r risg o allu cyrraedd, ymgysylltu â a chadw plant a phobl ifanc. Mae recriwtio pobl ifanc i mewn i brosiectau yn dasg anodd bob amser, felly rydym yn disgwyl y bydd rhai risgiau i chi allu gwneud hyn yn effeithiol ac rydym am sicrhau eich bod wedi meddwl am y rhain ac wedi'u lliniaru yn y gorffennol.

Gofynnir i chi'n gyntaf ddewis un o bump cyfraddiad o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, gweddol uchel, cymedrol, isel). Gofynnir i chi wedyn lenwi blwch testun rhydd gan ddarparu esboniad dros pam y gwnaethoch roi y cyfraddiad a wnaethoch.

Yn eich adran testun rhydd, cynhwyswch yr hyn y byddech yn ei wneud i liniaru'r risg hon os oes gennych gynllun ar waith ar gyfer hyn eisoes.

Gallai ymateb cryf i'r cwestiwn hwn gynnwys tystiolaeth o'ch:

- Profiad o gyrraedd y plant a phobl ifanc rydym am eu cyrraedd trwy'r cylch grant hwn.
- Eich profiad o fonitro teithiau'r plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn eich gweithgareddau.
- Cyfraddau uchel o ymgysylltu a chyfraddau cadw yn eich rhaglenni. Gallai hynny gynnwys rhestr aros i gymryd rhan.
- Gweithlu â chymwysterau cryf mewn darparu (gan gynnwys cymwysterau ffurfiol perthnasol a / neu gael staff a phrofiad byw tebyg i'r plant neu bobl ifanc rydych chi'n gweithio â nhw).
- Cynnwys y plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio â nhw yng nghynllun eich prosiectau.
- Brandio da, clir sy'n apelio at y plant a'r bobl ifanc rydych chi'n anelu at eu cyrraedd.

**40. Pa risg sydd na fyddwch yn gallu cyflawni'ch prosiect yn llwyddiannus yn y lleoliadau rydych chi wedi'u nodi? Beth sy'n gwneud i chi ddewis yr opsiwn hwn? [Uchafswm 500 gair]**

Rydym yn bwriadu i chi ymateb â risgiau cyffredinol i ragamcanu gweithredu. Gallai hyn gynnwys risgiau fel y gallu i recriwtio'r aelodau staff cywir, gallu rhoi'ch prosiect ar waith mewn dull amserol, risgiau mesurau cadw pellter cymdeithasol parhaol, ac ati. Gall fod risgiau darparu hefyd i'r lleoliadau rydych yn cynnig i weithio ynddynt. Er enghraifft, efallai nad ydych wedi gweithio yn yr awdurdodau lleol hyn o'r blaen.

Gofynnir i chi'n gyntaf ddewis un o bump cyfraddiad o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, gweddol uchel, cymedrol, isel). Gofynnir i chi wedyn lenwi blwch testun rhydd gan ddarparu esboniad dros pam y gwnaethoch roi y cyfraddiad a wnaethoch.

Yn eich adran testun rhydd, cynhwyswch yr hyn y byddech yn ei wneud i liniaru'r risg hon os oes gennych gynllun ar waith ar gyfer hyn eisoes.

41. **Pa brofiad sydd gennych o ddarparu'r gweithgaredd hwn i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n bwriadu eu cynorthwyo? A yw'ch prosiect wedi'i ffurfio gan bobl ifanc neu gymunedau â phrofiad o fyw ac os felly, pam? Os nad felly, pam? [Uchafswm 500 gair]**

Sicrhewch eich bod yn ateb holl rannau'r cwestiwn:

- **Rhan un:** Pa brofiad sydd gennych â'r math hwn o weithgaredd?
- **Rhan dau:** Pa brofiad sydd gennych â'r math hwn o blentyn neu unigolyn ifanc?
- **Rhan tri:** A yw'ch prosiect wedi'i ffurfio gan bobl ifanc neu gymunedau?

Gall fod gennych brofiad ag un ond nid y llall. Mae hynny'n iawn, sicrhewch eich bod yn esbonio. Byddwch yn ymwybodol hefyd fod ceisiadau'n fwy tebygol o fod yn llwyddiannus os yw'ch prosiect (a allai gynnwys eich sefydliad a / neu bartner) wedi darparu'r gweithgaredd hwn am o leiaf 6 mis erbyn yr adeg rydych yn cyflwyno'ch cais. Ni fyddwn yn cyllido gweithgareddau newydd sbon sydd erioed wedi cael eu darparu.

Cwestiynau y dylech feddwl am ateb yn eich hymateb:

- Ers faint mae'ch staff neu'ch partneriaeth wedi bod yn ymwneud â darparu'r gweithgaredd hwn?
- Os ydych chi'n cyflwyno cais fel clymblaid, sicrhewch eich bod yn dweud wrthym am brofiadau aelodau gwahanol eich partneriaeth. Oes gan un sefydliad brofiad o ddarparu dros nifer o flynyddoedd? A yw un arall yn arbenigwr mewn gweithio â'r plant a phobl ifanc rydym am eu cynorthwyo fwyaf?

42. **Sut ydych chi'n bwriadu cynorthwyo pobl ifanc sydd wedi'u gorgynrychioli yn y system cyfiawnder ieuenctid neu sy'n cael trafferth i gyrchu gwasanaethau cymorth prif lif? [Uchafswm 250 gair]**

Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd wedi'u hymylu – gan gynnwys Du, Asiaidd a phlant a phobl ifanc o leiafrifoedd hiliol eraill, a phlant sydd wedi bod mewn gofal – wedi'u gorgynrychioli'n sylweddol yn y system cyfiawnder ieuenctid. Rydym wedi ymrwymo i ddeall a mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn.

Rydym am sicrhau bod ein prosiectau a gyllidir yn cyrraedd yr holl blant y mae angen cymorth arnynt. Mae eisiau gwybod arnom sut y byddwch yn sicrhau bod plant a phobl ifanc o gefndiroedd wedi'u hymylu yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan yn eich prosiect. Gallai hynny gynnwys pethau fel cynhyrchu deunyddiau hawdd i'w darllen i blant ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau (SEND), cymryd camau i sicrhau bod eich rhaglen yn cydnabod ac yn addasu i wahaniaethau diwylliannol (er enghraifft, trwy weithio â grwpiau cymunedol lleol i adolygu adnoddau recriwtio) neu weithio â'ch awdurdod lleol i estyn allan at deuluoedd lle mae plant yn adnabyddus i wasanaethau plant.

43. **Mae gennym ddiddordeb yn lefel profiad y bobl sy'n darparu'r gweithgareddau. Allech chi ddweud ychydig wrthym pwy yw'r bobl hyn (gwirfoddolwyr neu staff taledig), eu lefel o brofiad ar gyfartaledd, unrhyw gymwysterau hyfforddiant neu broffesiynol fyddai ganddynt ac unrhyw gymorth, goruchwyliaeth barhaol neu ddatblygiad proffesiynol parhaol mae'n ofynnol iddynt dderbyn fel rhan o'r rôl? Pa brofiad sydd gan y rheini sy'n darparu'r gweithgareddau o weithio â phlant a phobl ifanc yr hoffech eu cynorthwyo? [Uchafswm 250 gair]**

Sicrhewch trwy'ch ateb fod gennym ddealltwriaeth glir o:

- Gymhwyster a phrofiad eich staff (gan gynnwys eu profiad o fyw).
- Yr hyfforddiant sydd ei angen cyn y gall darparu ddechrau.
- Y cymorth, hyfforddiant a goruchwyliaeth barhaol y byddwch yn eu darparu i'r staff a / neu wirfoddolwyr sy'n darparu gweithgareddau

Gallech ddymuno ystyried pethau fel:

- Hyfforddiant staff ar drawma a sut i weithio â phlant a phobl ifanc mewn sefyllfaoedd agored i niwed.
- Sut y bydd cymwysterau a hyfforddiant staff yn sicrhau bod eich prosiect yn ddiwylliannol briodol i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n anelu i weithio â nhw.

**44. Yn aml mae sefydliadau'n cael trafferth i ddarparu'r gweithgaredd gan nad ydynt wedi sylwi pam y byddai pethau'n mynd o'u lle. Ar wahân i'r pethau rydych chi wedi'u crybwyll eisoes, beth yw'r brif risg i chi fethu â darparu'r ymyriad hwn? [Uchafswm 20 gair] Pa mor debygol yw hyn? Pam ydych chi'n dweud y lefel hon o risg? [Uchafswm 250 gair]**

Dyma'ch cyfle i gynnwys unrhyw wybodaeth arall am risg rydych yn ei gweld i'ch prosiect na syrthiodd o fewn un o'r categorïau uchod.

Defnyddiwch yr adran hon i amlygu unrhyw risgiau sy'n unigryw i'ch prosiect neu gyd-destun darparu.

Rhoddir blwch testun rhydd i chi lle gofynnwn i chi ddatgan y brif risg rydych chi'n ei gweld i fethu â darparu'ch prosiect.

Gofynnir i chi wedyn ddewis un o'r pump cyfraddiad o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, gweddol uchel, cymedrol, isel). Yn olaf, gofynnir i chi wedyn lenwi blwch testun rhydd gan ddarparu esboniad pam bod gennych y cyfraddiad a wnaethoch.

## Pobl ifanc y byddwch chi'n gweithio â nhw

Os yw'ch cais yn llwyddiannus, bydd y nifer o blant a phobl ifanc y byddwch chi'n darparu ar eu cyfer yn cael eu dylanwadu gan gapasiti eich prosiect a'r math o astudiaeth arfarnu yr ymgymerir â hi. Bydd hyn yn cael ei archwilio'n fanwl â'ch arfarnwr ac YEF. Gan ein bod am i'n prosiectau a gyllidir gael ffocws ar ganlyniadau plant a phobl ifanc mae'n well gennym i brosiectau allu gweithio â chyfanswm o 100 o blant a phobl ifanc o leiaf ar draws cyfnod eich prosiect arfaethedig.

**45. Beth yw'r nifer isaf a mwyaf o blant a phobl ifanc y gallech ddarparu gweithgareddau iddynt ar draws cyfnod eich prosiect arfaethedig?**

**46. Faint o blant a phobl ifanc wnaethoch chi ddarparu'r prosiect hwn iddynt eleni?**

**47. Faint o blant a phobl ifanc fyddech chi'n ceisio darparu ar eu cyfer yn y flwyddyn gyntaf?**

**48. Faint o blant a phobl ifanc fyddech chi'n ceisio darparu ar eu cyfer yn yr ail flwyddyn?**

**49. Faint o blant a phobl ifanc fyddech chi'n ceisio darparu ar eu cyfer yn y drydedd flwyddyn? (os yn ymgeisio am dair blynedd)**

Sicrhewch eich bod yn egluro'r nifer o bobl ifanc y byddwch yn eu cyrraedd yn y blychau ateb 45 hyd at 49. Y rheswm rydym yn gofyn y cwestiwn hwn yw oherwydd ein bod yn cydnabod ei bod yn cymryd peth amser i recriwtio plant  phobl ifanc.

Mae angen i ni sicrhau y byddwch yn cyrraedd digon o blant a phobl ifanc i ni allu rhedeg arfarniadau sy'n dweud wrthym am effaith eich gwaith. Mae hyn yn golygu'n aml y byddwn yn gofyn i chi gyrraedd niferoedd uchel (er enghraifft, mae'n debygol y byddai angen o leiaf 100 o gyfranogwyr ar eich prosiect i redeg treial rheoli ar hap, neu fath cadarn arall o arfarniad). Ni fyddwn yn gofyn i chi ddarparu i fwy o blant a phobl ifanc na bydd ei angen arnom i gymryd rhan am arfarniad cryf.

**50. Pa mor uchel yw'r risg na fyddwch chi'n gallu uwchraddio fel hyn, gan ragdybio ein bod yn darparu'r cyllid? Pam ydych chi'n dweud y lefel hon o risg? [Uchafswm 250 gair]**

Gofynnir i chi ddewis un o'r pump cyfraddiad o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, gweddol uchel, cymedrol, isel) i ymateb i ba mor uchel mae'r risg na fyddwch yn gallu uwchraddio'ch prosiect i gyrraedd y nifer hon o blant a phobl ifanc fel y bwriadwyd. Gofynnir i chi wedyn lenwi blwch testun rhydd gan ddarparu esboniad ar gyfer pam rydych wedi rhestru'r cyfraddiad a wnaethoch. Yn yr adran hon, sicrhewch eich bod hefyd yn datgan pa fesurau sydd gennych ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn aros i gymryd rhan am hyd y prosiect (hynny yw, sydd ddim yn syrthio allan o'r prosiect cyn iddo gael ei gwblhau).

Mae'n bwysig i ni allu gweld bod gennych gynllun realistig ar gyfer uwchraddio'ch prosiect i allu cynnal arfarniad llwyddiannus o'ch gwaith.

**51. Pe byddem yn canfod bod yr hyn rydych yn i wneud yn gweithio'n wych, byddem am ei gymryd ledled Cymru a Lloegr. Pe byddem am i wneud hynny ddigwydd, pa un fyddai'r ffordd hawddaf i wneud hynny ydych chi'n meddwl? [Dewiswch o'r atebion]**

Gofynnir i chi'n gyntaf ddewis pa un o'r tri opsiwn isod fyddai'n hawddaf i chi ei wneud i ddigwydd. Gofynnir i chi wedyn ddewis un o bedwar cyfraddiad o restr o opsiynau (amhosibl, anodd, cymedrol, hawdd) i ymateb i ba mor anodd ydych chi'n meddwl y bydd eich dewis opsiwn i'w weithredu. Yn olaf, gofynnir i chi lenwi blwch testun rhydd gan ddarparu esboniad ar gyfer pam rydych wedi rhestru'r cyfraddiad a wnaethoch.

- Rydych chi'n dod yn sefydliad mwy â chyrhaeddiad cenedlaethol: Yn eich hadran testun rhydd esboniwch eich cyfraddiad ar gyfer pa mor anodd fyddai hyn i'w gyflawni a beth fyddai ei angen arnoch i allu uwchraddio'n llwyddiannus i sefydliad mwy.
- Mae eraill wedi'u hyfforddi i ddarparu'r hyn rydych yn ei wneud: yn eich hadran testun rhydd, esboniwch sut y gallai hyn weithio a pha mor debygol y byddai  y gallai sefydliadau eraill fabwysiadu dysgu o'ch gwaith A yw'r gwaith hwn mor unigryw i chi neu'ch cyd-destun y byddech yn ei chanfod yn anodd i sefydliadau eraill ei ddyblygu neu addasu i'ch dysgu? Neu a yw hyn yn rhywbeth a allai ledaenu?
- Newid polisi yn arwain at hyn yn dod yn weithgaredd prif lif: yn eich hadran testun rhydd, esboniwch eich cyfraddiad a'r hyn rydych chi'n meddwl y byddai'n cymryd i gyflawni newid polisi yn y maes hwn.

**52. Ydych chi, neu rywun sy'n cymryd rhan neu'n gysylltiedig â'ch prosiect wedi ymgeisio neu yn y broses o ymgeisio am unrhyw grantiau ymchwil ar gyfer y prosiect rydych chi'n ceisio cyllid YEF ar ei gyfer?**

Os ydych chi wedi dewis 'Ydym', byddwn yn gofyn am ragor o fanylion am y cyllid ymchwil rydych chi wedi'i dderbyn.

Bydd yr ateb i'r cwestiwn hwn yn ein helpu i ddeall sut y gallwn wneud y mwyaf o unrhyw ymchwil arall sydd wedi cael ei gynnal am eich prosiect. Wrth wybod am waith arfarnu parhaol arall, rydym yn gallu sicrhau nad yw'n harfarniadau yn dyblygu unrhyw waith a'n bod yn adeiladu ar ymchwil a thystiolaeth bresennol.

## Section 7: Cyllideb

**53. Beth yw cyfanswm y gyllideb sydd ei hangen arnoch i ddarparu'r prosiect hwn?**

Cofnodwch gyfanswm gwerth y prosiect o'r dyddiad cychwyn i'r dyddiad gorffen, heb ystyried pwy sy'n darparu'r cyllid.

Nodwch hefyd, ar yr adeg hon, rydym ond yn disgwyl cyllidebau prosiect i fod yn fynegiant o gostau. Mae'n debygol, os byddwch chi'n cyrraedd y cam cydgynllunio, y byddwn yn ailymweld ac yn mireinio'ch prosiect a'ch cyllideb.

**54. Beth yw'r swm rydych chi'n gofyn amdano gan yr YEF i ddarparu'r prosiect hwn?**

Cofnodwch swm y gyllideb gyfan uchod rydych chi'n gofyn amdani gan YEF.

Nid yw'n broblem os ydych chi'n gofyn am 100% o gyfanswm y gyllideb gan YEF a bod y ddau rif hwn yn cydweddu.

Nid yw'n ofyniad eich bod yn canfod ffynonellau eraill o gyllid ar gyfer eich prosiect i gael eich cymeradwyo am grant ac ni fydd hyn yn ffactora i mewn i sut fydd eich cais yn cael ei asesu. Fodd bynnag, rydym yn eich annog i ganfod ffynonellau eraill o gyllid ar gyfer eich prosiect pryd bynnag y bo'n bosibl.

Mae'r ffynonellau hyn o gyllid yn gallu cynnwys grantiau eraill, cyfraniadau rydych chi'n eu gwneud trwy eich cyllid anghyfyngedig eich hun, neu gymorth mewn nwyddau ac er budd cyhoeddus mae'ch sefydliad yn ei dderbyn am y gweithgareddau.

Os oes gennych ffynonellau eraill o gyllid darparwch wybodaeth am y ffynonellau hynny a pha mor ddiogel mae'r cyllid hwnnw.

**55. Cwblhewch y tabl isod i ddweud wrthym faint fydd eich prosiect yn ei gostio. Rydym wedi gofyn i chi rannu'r symiau i 4 math:**

**a. Costau prosiect**

**b. Costau gorbenion (e.e. eich costau swyddfa)**

**c. Costau staff**

**d. Costau cyfarpar**

Gallwch ymgeisio am hyd at 3 blynedd o gyllid. Os ydych ond yn ymgeisio am 1 neu 2 flynedd o gyllid, mae angen i chi gwblhau'r rhannau hynny o'r tabl yn unig.

Defnyddiwch y diffiniadau canlynol i'ch helpu i lenwi'r tabl:

a. **Costau prosiect**: cost uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chynnal eich gweithgaredd. (enghraifft: costau teithio).

b. **Costau gorbenion**: nid yw'r gost ar gyfer talu am y gweithgaredd ei hun, ond mae'n hanfodol ac yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgareddau lluosog yn eich sefydliad. (enghraifft: rhent swyddfa, a'r gost ohono yn cael ei dosbarthu i wahanol weithgareddau rydych yn eu rhedeg).

c. **Costau staff:** dyma'r costau sy'n gysylltiedig â'r staff fydd yn gweithio'n uniongyrchol ar eich gweithgaredd. Os yw'n gost staff ar gyfer unigolyn cyllid neu aelod staff aelod wrth gefn arall sy'n cynorthwyo'ch sefydliad cyfan, cynhwyswch eu costau yn yr adran gorbenion.

d. **Costau cyfarpar**: os ydych chi'n prynu eitem a gwerth uned o £1,000 neu fwy, cynhwyswch hi yn yr adran hon. Os ydych chi'n prynu eitem a gwerth uned o lai na £1,000, cynhwyswch hi yn yr adran costau prosiect.

56. **Yn seiliedig ar y nifer isaf ac uchaf o blant a phobl ifanc y dywedoch chi y gallech chi ddarparu gweithgareddau iddynt ar draws eich prosiect cyfan beth fyddai'r gost fesul plentyn sy'n cymryd rhan yn y prosiect?**

Llenwch y tabl i'n helpu ni i ddeall cost y prosiect fesul plentyn neu unigolyn ifanc. Nid ydym yn disgwyl i hyn fod yn amcangyfrif manwl. Mae o gymorth i ni i gael canllaw bras. er mwyn i ni allu gweld faint fyddai'ch prosiect yn ei gostio i'w ddarparu ar raddfa lai neu fwy.

## 5. Beth sy'n digwydd nesaf

### Cam un: asesiad

Cyn gynted â'ch bod wedi cyflwyno'ch cais, bydd yn cael ei anfon at ein tîm o aseswyr hyfforddedig i'w adolygu yn erbyn yr wyth maen prawf a ddisgrifir yn adran Sut y byddwn yn asesu'ch cais y canllaw. Byddwn yn dechrau asesu ceisiadau cyn gynted â'u bod yn cael eu derbyn. Rydym felly'n eich annog i gyflwyno'ch cais cyn gynted â'ch bod yn barod, yn hytrach nac aros am y terfyn amser.

Bydd ein tîm asesu yn cael y dasg o ddatblygu rhestr fer o ymgeiswyr, fydd yn cael ei hanfon at ein Pwyllgor Grantiau ac Arfarnu i'w hadolygu. Bydd pobl ifanc sydd wedi'n helpu i ddatblygu cwmpas y cylch hwn hefyd yn rhoi mewnbwn i ddatblygu'r rhestr fer.

### Cam dau: Adolygiad y Pwyllgor Grantiau ac Arfarnu

Gwaith cyntaf ein Pwyllgor Grantiau ac Arfarnu yw adolygu gwaith ein haseswyr a chadarnhau ein rhestr derfynol o geisiadau i'w dwyn i ail gam ein proses ymgeisio.

Ar ôl yr adolygiad Pwyllgor hwn y byddwn yn cysylltu â chi â chanlyniad eich cais (naill ai'ch bod yn aflwyddiannus neu rydych chi'n symud ymlaen at gam nesaf y cais). Rydym yn disgwyl i'r cyfathrebiad cyntaf hwn ddigwydd erbyn diwedd Mawrth 2023.

### Cam tri: datblygu neu fireinio Damcaniaeth Newid

Byddwn yn gweithio â'r prosiectau sydd wedi cyrraedd ail gam ein proses ymgeisio i ddatblygu neu fireinio ein Damcaniaeth Newid. Am ragor o wybodaeth am Ddamcaniaethau Newid edrychwch ar yr adnoddau a ddarperir gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar.

Bydd y broses hon yn ein helpu i wirio ein bod yn deall eich prosiect yn llawn a theimlo'n hyderus y bydd ffordd i gynnal arfarniad trwyadl ohoni.

### Cam pedwar: eich cydweddu ag arfarnwr

Byddwn wedyn yn cydweddu'r ymgeiswyr hynny ag arfarnwr o'n panel arfarnwyr. Mae'r panel hwn yn cynnwys tua 35 o sefydliadau ymchwil a phrifysgolion sydd â'r wybodaeth, sgiliau ac arbenigedd i gynnal arfarniadau trwyadl o weithrediad ac effaith y prosiectau rydym yn eu cyllido.

Bydd pob sefydliad yn rhoi cynnig cystadleuol i gael eich partneru â chi os ydych chi'n llwyddo i gyrraedd y cam hwn o'r cais. Bydd arfarnwyr yn cael eu cydweddu â'ch prosiect yn seiliedig ar amrediad o ystyriaethau, gan gynnwys cryfder ac ansawdd eu cynnig, eu sgiliau a phrofiad yn y dulliau arfarnu sy'n briodol ar gyfer eich prosiect, eu gwybodaeth benodol am bwnc a phrofiad o gynnal ymchwil â'r plant a phobl ifanc mae'ch prosiect yn eu cynorthwyo.

### Cam pump: cydgynllunio

Cyn gynted â'ch bod wedi'ch paru ag arfarnwr, byddwch yn mynd i mewn i gyfnod 'cydgynllunio' lle byddwch yn gweithio â'ch arfarnwr i gynllunio cynnig terfynol a chynllun prosiect sydd â'r cyfle gorau o

gyflawni arfarniad effeithiol. Mae hyn yn golygu y gallai cydrannau o'ch cynllun gwreiddiol a'ch cais newid.

Byddwn yn gweithio â chi i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn feddylgar ac yn strategol, ac os yw hyn yn golygu bod eich cyllideb neu'ch llinell amser yn newid, rydym yn deall hynny a byddwn yn cefnogi hynny. Ein nod yw sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gydweithredol a'ch bod yn cael eich cynorthwyo trwy ba newidiadau bynnag sy'n cael eu gwneud.

## Cam chwech: cynigion terfynol

Cyn gynted â'ch bod wedi cyflwyno'ch cynnig terfynol, sydd wedi cael ei gydgynllunio â'ch arfarnwr, byddwn yn ei anfon at ein pwyllgor Grantiau ac Arfarnu fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar ddyfarnu'r grant a'r arfarniad neu beidio.

Mae hyd yr amser y bydd y cam 'cydgynllunio' hwn yn parhau yn dibynnu ar y math o arfarniad sydd ei angen ar eich prosiect ond bydd yn dechrau yn gynnar ym Mehefin ac yn cael ei gwblhau yn Hydref 2023.

## Amser

Mae'n bwysig i fod yn ymwybodol o'r amser rydych chi'n cyflwyno rhan gyntaf eich cais i'r adeg rydych chi'n clywed y canlyniad terfynol (hynny yw, a fydd YEF yn dyfarnu'r grant a'r arfarniad neu beidio) yn debygol o fod o tua 10 i 12 mis. Rydym yn credu bod y swm hwn o amser yn gweithio â'n tîm â'ch arfarnwr a gydweddwyd â chi yn hollbwysig. Gyda'ch gilydd, bydd yn eich helpu i ddatblygu sylfaen gref i ganfod beth sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais.



Y GRONFA GWADDOL IEUENCTID

Impetus

Home Office

**youthendowmentfund.org.uk**

hello@youthendowmentfund.org.uk

@YouthEndowFund


Yr Ymddiriedolaeth Elusennol Gwaddol Ieuenctid

Rhif Elusen Gofrestredig: 1185413